

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Amy Leach-Haynes Cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
Adran:	Cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Neil Surman / Jo Salway
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol	Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Dyddiad Dechrau:	19 Hydref 2021

CYNNWYS

Sut i Lenwi'r Asesiad Effaith Integredig	3
Adran 1.Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	4
Adran 2.Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?	13
Adran 3.Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg?	16
Adran 4.Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?	18
Adran 5.Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?	22
Adran 6.Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?	27
Adran 7.Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn Gofynnol	28
Adran 8.Casgliad	30
Adran 9.Datganiad	35
Asesiadau Effaith Llawn	36
A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	36
B. Sgrinio'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data	49
C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	55
D. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth	64
E. Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol.....	72

SUT I LENWI'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

Dylid defnyddio'r templed hwn i grynhoi prif effeithiau'r cynnig. Wrth ei lenwi, dylech ystyried sut y mae'r cynnig:

- yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gweledigaeth y *Rhaglen Lywodraethu*;
- yn gallu cyfrannu ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru;
- yn cael effaith bosibl ar Gymru a'i phreswylwyr, yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Asesiadau Effaith Llawn

I gynnal yr Asesiad Effaith Integredig, bydd angen i chi ddefnyddio rhai, ond nid o reidrwydd bob un, o'r asesiadau effaith llawn a restrir isod ac sydd wedi'u hatodi ar ddiwedd y templed hwn. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn eich arwain at yr asesiadau effaith llawn perthnasol y mae angen i chi eu llenwi.

Atodiad	Asesiad Effaith Llawn
A	Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
B	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
C	Error! Reference source not found.
D	Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data
E	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
F	Asesiad o'r Effaith ar Fioddiogelwch
G	Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol
Gweler y Fewnrwyd	Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

Ar gyfer asesiadau eraill nad oes templed wedi'i ddarparu yma ar eu cyfer (er enghraifft Asesu'r Effaith ar Iechyd ac Asesiad Strategol o'r Effaith Amgylcheddol), gweler y canllawiau cysylltiedig â'r Asesiad Integredig hwn o'r Effaith i gael rhagor o wybodaeth.

ADRAN 1.PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

1. Mae Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

2. Yn gryno, mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG);
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r CPG wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn y nod presennol "Cymru lewyrchus";
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gaffael, er mwyn pennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, a chyhoeddi strategaeth gaffael;
- cyrff cyhoeddus penodol yn cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau eu bod yn ceisio sicrhau canlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi;
- gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael.

Hirdymor

3. Mae Llywodraeth Cymru am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori yn ein prif ddeddfwriaeth, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau.
4. Yn y tymor hwy, bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni'r nod llesiant "Cymru lewyrchus". Bydd yn ei gwneud yn bosibl ceisio sicrhau gwaith teg drwy'r broses lle mae cyrff cyhoeddus yn pennu ac yn cyhoeddi eu hamcanion llesiant ac yn cyflwyno adroddiad ar eu cynnydd yn eu herbyn. Bydd hyn yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i arwain drwy esiampl wrth sicrhau gwaith teg er mwyn sicrhau gwelliannau mewn llesiant.
5. Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn nodi darpariaethau i gryfhau a hyrwyddo cysondeb yn system partneriaeth gymdeithasol Cymru, er mwyn ceisio sicrhau gwaith teg fel rhan o'r nod llesiant 'Cymru Lewyrchus' a sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Mae i'r Bil ddau ddiben cyffredinol, sef gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gwella llesiant yng Nghymru.
6. Bydd y dyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol yn ategu nodau a dyheadau'r Bil. Bydd y ddyletswydd yn cynnig y llwyfan a fydd yn rhoi llais i'r gweithlu a bydd yn chwarae rhan i ddylanwadu ar bolisiâu yn y dyfodol.
7. Nod y dyletswyddau caffael yw cynnig manteision yn y tymor hwy drwy sicrhau canlyniadau y gellir eu mesur a'u cofnodi. Gellir pennu llinellau sylfaen ar nifer o fetrigau pwysig, er enghraifft ar ddata sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu gyflogaeth, ar gam cynnar, a gellir monitro cynnydd dros amser.

Atal

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers amser i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol yng Nghymru – ceir amcan llesiant sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg drwy ei gydsyniad o waith addas. Bydd y Bil hwn yn newid y cyfeiriad at waith addas i waith teg. Dros ddau ddegawd o ddatganoli, y nod fu cefnogi'r tlotaf mewn cymdeithas drwy newid amgylchiadau

economaidd a lliniaru'r gwasgiad mwyaf erioed wedi'r rhyfel ar gyllid cyhoeddus a degawd o bolisiau cyni cyllidol Llywodraeth y DU.

9. Bydd y darpariaethau ynglŷn â gwaith teg yn y Bil yn cefnogi'r bwriad clir y bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni nod "Cymru lewyrchus". Bydd yn ei gwneud yn bosibl ceisio sicrhau gwaith teg yng nghyd-destun y nod llesiant hwnnw drwy'r broses lle mae cyrff cyhoeddus yn pennu ac yn cyhoeddi eu hamcanion llesiant ac yn cyflwyno adroddiad ar eu cynnydd yn eu herbyn.
10. Mae'r rhai sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus yn aml yn gweithredu yn wyneb tensiynau rhwng amcanion croes. Er enghraifft, efallai y bydd gofyn iddynt sicrhau arbedion cost a gwerth am arian drwy dendro cystadleuol a chytundebau cydweithredol, ond hefyd sicrhau canlyniadau pwysig megis manteision amgylcheddol, arferion cyflogaeth gwell a chyfleoedd i fusnesau a gweithwyr lleol. Yng nghyd-destun pwysau cyllidebol, gall fod yn anodd blaenoriaethu gwariant tuag at gyflawni amcanion llesiant tymor hwy.
11. Mae amserlenni caffael yn aml yn achosi anawsterau ychwanegol; pan fydd angen gwario arian yn gyflym, mae'n anos nodi ffyrdd o wella canlyniadau hirdymor. Mae'n bwysig bod caffael cymdeithasol gyfrifol, sydd â'r nod o helpu i atal problemau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn y tymor hwy, yn cael eu deall fel dyletswydd yn hytrach nag opsiwn dewisol.
12. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus dynodedig ymgymryd â dyletswyddau rheoli contractau a rhoi systemau cydymffurfio newydd a chryfach ar waith. Bydd y rhain yn helpu i atal ansicrwydd o ran trefniadau cytundebol, a all, yn eu tro, atal torri corneli sy'n gallu arwain at raddol waethygu amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Integreiddio

13. Nod cyffredinol y Bil o ran hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol yw:
 - a. gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys drwy wneud prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn fwy cadarn ac effeithiol drwy system partneriaeth gymdeithasol gryfach a mwy cyson sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog ac arloesol;
 - b. gwella llesiant, yng Nghymru, drwy sicrhau bod llais a buddiannau gweithwyr yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau; drwy gyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd; drwy sicrhau canlyniadau gwaith teg; a thrwy sicrhau bod llesiant yn ystyriaeth allweddol ym maes caffael cyhoeddus.

14. Mae'r Bil drafft yn sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwrpas i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundeb(au) llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes unrhyw undeb llafur cydnabyddedig) â chynrychiolwyr eraill eu staff wrth arfer swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â'u hamcanion llesiant. Wrth wneud hynny, bydd yn bywiogi'r trefniadau presennol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, gan roi sicrwydd a strwythur mewn tirwedd fwy cynhwysfawr, integredig a chydweithredol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaethau economaidd rhanbarthol.
15. Mae'r Bil yn rhan o fframwaith ehangach o weithgarwch i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae hyn yn cynnwys ein huchelgeisiau a'n hymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol; Cynllun Gweithredu LHDTTC+ ac adroddiad Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, ynghyd â'n gwaith i bennu carreg filltir genedlaethol i ddileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, hil ac anabledd erbyn 2050. Mae gwaith wedi dechrau ar gynlluniau i adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Roedd yr adolygiad wedi cael ei atal dros dro am fod angen dargyfeirio adnoddau i'w gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru ymateb i COVID-19. Mae'r cynllun gwaith ar gyfer yr adolygiad wrthi'n cael ei gwmpasu. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, bydd angen i derfynau amser a chatau gweithredu fod yn gliriach.
16. Byddwn yn cadarnhau sut mae'r adolygiad yn cyd-fynd â'r canlyniadau ymchwil yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar 'Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru', lle mae nifer o argymhellion yn ymwneud â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd yr adolygiad yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allweddol, megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, cyrff yn y sector cyhoeddus a'r thrydydd sector yng Nghymru, ynghyd â rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb o bob rhan o Gymru.
17. Y bwriad yw y bydd y Bil yn integreiddio gwaith teg â'r dulliau gweithredu y bydd cyrff cyhoeddus yn eu mabwysiadu i wella llesiant Cymru, a hynny am fod y dystiolaeth yn awgrymu y gall gwaith teg gyfrannu at berfformiad sefydliadol gwell a darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, drwy wella morâl, ymgysylltu, gwell chynhyrchiant ac agweddau eraill ar berfformiad. Yn yr un modd, mae'r dystiolaeth yn dangos yn gyson bod unigolion mewn gwaith diogel a wobrwyr yn deg yn byw bywydau hapusach ac iachach – agwedd hollbwysig ar lesiant unigol ac ar y cyd. Drwy hyn, mae darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gwaith teg yn ategu'r dyletswyddau llesiant yn adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bydd yn helpu Gweinidogion Cymru i ymgymryd â gweithgarwch sy'n cyfrannu at y nodau llesiant ac yn benodol y nod o greu Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
18. O ran caffael, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus bennu amcanion mewn perthynas â'r nodau llesiant, a bydd y broses o gyflwyno adroddiadau ar y rhain yn cael ei symleiddio a'i chyfuno â'r broses adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd hyn yn hyrwyddo dull gweithredu mwy cyson

ymhlith cyrff cyhoeddus ac yn helpu i nodi cyfleoedd i weithio mewn ffordd fwy integredig er mwyn sicrhau canlyniadau llesiant a gwaith teg.

19. Er mwyn cefnogi dull gweithredu cydlynol o ran y priod ddyletswyddau, bydd y Bil yn sefydlu'r CPG. Corff teiran yw'r CPG a'i swyddogaeth yw cynghori Llywodraeth Cymru ar faterion y mae'r Bil yn ymdrin â nhw (dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol, cyflawni nod "Cymru lewyrchus" o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chaffael cymdeithasol gyfrifol). Bwriedir iddo fod yn sianel i leisiau a chyfranogiad partneriaid cymdeithasol, yn benodol cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, wrth drafod polisiau perthnasol y llywodraeth.
20. Diben y CPG yn y pen draw fydd cefnogi Gweinidogion Cymru wrth iddynt weithredu i wella gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau gwell llesiant, yn enwedig llesiant cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys drwy gryfhau a gwella cysondeb system partneriaeth gymdeithasol Cymru.

Cydweithio

21. Mae partneriaeth gymdeithasol yn golygu bod partneriaid, megis undebau llafur, cyflogwyr a'r Llywodraeth, yn mynd ati i gyflawni nod y mae pawb yn cytuno arno, er budd yr holl grwpiau dan sylw. Yr egwyddor sylfaenol yw mai drwy ymrwymiad cyffredin i lwyddiant yw'r ffordd orau o gyflawni nodau ac amcanion sefydliad. Mae'n ddull pwerus o sicrhau newid ac mae'n effeithio ar faterion sy'n berthnasol i nifer o bartneriaid partneriaeth gymdeithasol.
22. Mae llawer o drefniadau partneriaeth gymdeithasol sefydledig rhwng sefydliadau cyflogi unigol neu eu grwpiau cynrychioliadol i'r sector cyfan ac undebau llafur cydnabyddedig yng Nghymru, y mae rhai ohonynt yn rhagddyddio datganoli ac y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at arferion cyffredin diwylliannol ar y cyd sy'n diffinio partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru. Nid yw'r Bil yn newid y trefniadau presennol – dim ond eu ffurfioli a'u cryfhau.
23. Mae trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu dros gyfnod o amser, a hynny'n wirfoddol ac yn organaidd ar lefel sectoraidd. Ar hyn o bryd, nid ydynt wedi'u cydgysylltu ar draws llywodraeth nac wedi'u hategu gan unrhyw fframweithiau sefydliadol neu bolisi ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a all gynnig cyfeiriad cyson a mwy ffurfiol gan Weinidogion Cymru. Mae'r cynigion yn cryfhau'r trefniadau presennol ac yn sicrhau y caiff y seilwaith i greu i sicrhau canlyniadau ar gyfer yr economi a gwariant cyhoeddus mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth i bawb; i sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus, i fusnesau yng Nghymru ac i holl weithlu Cymru ac, yn y pen draw, ar gyfer gwell llesiant.
24. Bydd y ddarpariaeth yn y Bil mewn perthynas â gwaith teg yn fodd i ymgorffori gwaith teg yn nod llesiant "Cymru lewyrchus" ac wrth geisio cyflawni'r nod hwnnw a bydd

angen i sefydliadau perthnasol ystyried y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n cynnwys cydweithio.

25. Ar hyn o bryd, gosodir llawer o ddisgwyliadau polisi ar y rhai sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus ac, yn aml, mae gorgyffwrdd rhyngddynt. Er enghraifft, mae datblygu economïau sylfaenol a lleol yn golygu rhoi ffocws ar waith teg yn ogystal â datblygu'r farchnad. Mae'r Bil hwn yn darparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu canlyniadau polisi a bydd yn dibynnu ar well cydweithio rhwng y rhai sy'n ymwneud â phennu polisiau a'u rhoi ar waith yn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff eraill.

Cynnwys

26. Bu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, sef fforwm traws-sector teiran o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, yn fodd i Weinidogion Cymru gysylltu â phartneriaid cymdeithasol fel rhan o'r ymateb brys i bandemig COVID-19. Mae cyfarfodydd rheolaidd y cyngor, gydag aelodaeth estynedig er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, wedi cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth ac ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i gryfhau prosesau datblygu polisi. Mae aelodaeth a swyddogaethau'r cyngor yn wahanol i rai'r CPG fel y'u nodwyd yn y Bil.
27. Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori wyth wythnos ynghyd â'r Bil drafft statudol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl cyn cychwyn y ddyletswydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Ebrill 2021.
28. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â gwaith teg, bwriadwn i Weinidogion Cymru gael eu llywio gan y CPG a'i gynnwys. Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn cydnabod bod eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru a'r partneriaid cymdeithasol (fel y'u diffiniwyd yn y Memorandwm Esboniadol), y mae ganddynt safbwyntiau a syniadau ynglŷn â hyrwyddo ac annog gwaith teg. Mae hyn yn cynnwys profiad bywyd uniongyrchol o'r cyhoedd a gwybodaeth mudiadau cymdeithas ddinesig a grwpiau buddiant. Er bodd ffordd o weithio'r bartneriaeth gymdeithasol yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu, ni fydd yn ein hatal yn ein hawydd i ymgysylltu a chynnwys lleisiau ehangach mewn ffyrdd sy'n gyson â'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
29. Drwy ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol yn y gwaith o adolygu canlyniadau cymdeithasol gyfrifol caffael yn rheolaidd bydd gwell ffocws ar brofiadau gweithwyr, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill. Er nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y Bil hwn, bwriedir hefyd roi system well ar waith ar gyfer mynd i'r afael â chwynion ac adborth ynglŷn â sut mae ymarfer caffael wedi cael ei gynnal, neu sut y caiff contract ei reoli.

Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:

Effaith

30. Drwy sefydlu CPG statudol a'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol disgwylir cryfhau ac ymestyn trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol, a chreu cynrychiolaeth gryfach a lluosogrwydd safbwyntiau. Drwy sefydlu trefniadau o dan y gyfraith disgwylir y bydd hynny'n rhoi statws cadarn i'r Cyngor ac allbwn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, sydd ei angen ar gyfer agenda fwy uchelgeisiol i greu Cymru sy'n fwy cyfartal a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yng Nghymru.
31. Bydd y ddyletswydd ynglŷn â chaffael cymdeithasol gyfrifol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus baratoi strategaeth gaffael, pennu amcanion a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau bob blwyddyn. Gall y ffordd rydym yn caffael ac yn comisiynu gwasanaethau, a'n trylwyrdd wrth reoli trefniadau masnachol a chadwyni cyflenwi hefyd gael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau llesiant yng Nghymru a thu hwnt. Bydd hyn hefyd yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd a sicrhau manteision amgylcheddol. Mae risg y bydd rhai busnesau yn penderfynu peidio â manteisio ar gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus, y gellir ei lliniaru drwy bennu gofynion mewn ffordd gymesur, sy'n ystyried yr effaith ar fusnesau bach a'r gofynion sy'n fwy perthnasol neu'n llai perthnasol i farchnadoedd penodol. Fodd bynnag, dylai hyn gynyddu'r sicrwydd i fusnesau a gwobrwyo'r rhai sydd eisoes yn dangos arferion da.
32. Effaith diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gynnwys cyfeiriad at waith teg yw y bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig iddi, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus". Bydd y dull gweithredu hwn yn integreiddio gwaith teg â'r dulliau y mae cyrff cyhoeddus penodedig yn eu mabwysiadu i wella llesiant Cymru. Drwyddo, bydd modd defnyddio'r broses o bennu a chyhoeddi amcanion llesiant fel system lle y gall cyrff cyhoeddus wneud cynnydd o ran gwaith teg.

Costau ar Arbedion

33. Byddai disgwyl i gost paratoi canllawiau gael ei thalu gan gyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru. Nodir y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â chyflwyno'r Bil.
34. Rydym ar ddeall yr ystyrir bod costau adrodd wedi'u cynnwys fel arfer o fewn swyddogaethau'r cyrff cyhoeddus ac yna gyfrifoldeb y cyrff hyn yw penderfynu sut i'w rheoli. Bydd cost hefyd i gyrff cyhoeddus yn gysylltiedig â chyhoeddi amcanion a

strategaethau caffael, casglu data a chyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau. Bydd disgwyl iddynt dalu am y costau hyn o'u cyllidebau presennol.

35. Nodau'r dyletswyddau caffael yw annog twf economaidd, hyrwyddo arferion gwaith teg, cyflog teg a chyfrannu at gyflawni targedau hinsawdd statudol Cymru. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu dull gweithredu tymor hwy i ganolbwyntio ar nodau llesiant, mae cyfleoedd i sicrhau arbedion sylweddol yn y tymor. Bydd costau gweithredu mor isel â phosibl drwy sicrhau bod y dyletswyddau yn cael eu cymhwysu'n gymesur â maint sefydliadau a risgiau i lesiant sy'n ymwneud yn benodol â phob math o gaffael a sector yn y farchnad.

Systemau

36. Bwriedir defnyddio deddfwriaeth i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Bydd y Bil:

- yn sefydlu CPG statudol a fydd yn ymgorffori safbwynt cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr wrth roi cyngor ar sail gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am faterion penodol a nodir yn y Bil. Bydd y CPG yn cynnig system barhaol a pharhaus lle y gall cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr ddylanwadu ar weithgareddau, polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru;
- gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol newydd i ategu'r ddyletswydd o ran llesiant yn adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill eu staff wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Bydd dyletswydd benodol ond tebyg yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r CPG wrth iddynt ymgymryd â datblygu cynaliadwy;
- creu dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol newydd, a fydd yn sbardun pwerus i ysgogi'r canlyniadau llesiant sydd eu hangen;
- diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gyfeirio at "gwaith teg" yn lle "gwaith addas" yn y nod llesiant presennol "Cymru lewyrchus". O ganlyniad, bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddeddf honno, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried gwaith teg wrth geisio cyflawni'r nod llesiant "Cymru lewyrchus".

37. Bwriedir y bydd ymwneud o'r fath yn digwydd drwy strwythurau partneriaeth gymdeithasol dwyochrog ar gyfer deialog a rhannu barn, lle mae cydraddoldeb cynrychiolaeth rhwng rheolwyr/cyflogwyr y corff cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol

undebau llafur a lle mae ymrwymiad ar y cyd i weithredu yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

38. Bydd cyrff cyhoeddus yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r CPG yn nodi'r hyn a wnaed ganddynt i gydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Bydd y ddeddfwriaeth yn gweithio ochr yn ochr â rhoi partneriaeth gymdeithasol ar waith ar lefel leol, sy'n dibynnu ar y berthynas gynrychioliadol rhwng aelodau'r CPG a'r sectorau sy'n rhan ohono.
39. Mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn cwmpasu caffael fel y'i diffiniwyd yn gyffredinol i gynnwys llunio, good a rheoli contractau. Mae dyletswydd gyffredinol i ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wrth ymgymryd â chaffael a phennu amcanion sydd wedi'u hanelu at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'n rhaid i gyrff gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn ar gyfer eu hymarferion caffael mwy o faint. Ar gyfer caffael sy'n ymwneud ag adeiladu, mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i bob ymarfer caffael gwerth dros £2m (gan gynnwys TAW). O ran nwyddau a gwasanaethau, caiff y trothwyon eu pennu drwy reoliadau, ond bwriad y polisi yw y bydd y rhain yn adlewyrchu trothwyon ar gyfer cymhwyso rheoliadau contractau cyhoeddus perthnasol.
40. Nodir dyletswyddau rheoli contractau penodol yn y Bil ar gyfer gosod gwasanaethau ar gontract allanol a chontractau adeiladu mawr. Mae'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn adlewyrchu pwysigrwydd cryfhau'r cysylltiad rhwng y gofynion sy'n cael eu cynnwys mewn ymarferion caffael a diwydrwydd dyladwy a'r ffocws ar ganlyniadau sy'n ofynnol gan reolwyr contractau.

ADRAN 2.BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

2.1 Pobl a Chymunedau

41. Bydd y cynigion ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn cyd-fynd yn agosach â threfniadau partneriaeth eraill, gan sicrhau mwy o gydlyniaeth â ffyrdd blaengar o weithio fel y'u sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg yn rhan annatod o'r broses o gyflawni'r nodau llesiant.
42. Mae ein bywydau gwaith yn cyffwrdd â phob agwedd ar ein bywydau y tu allan i'r gweithle a gall gwaith teg neu ddiffyg gwaith teg gael effaith drawsnewidiol ar fywydau dinasyddion Cymru. Mae rhaglenni'r Llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi pobl ym mhob agwedd ar eu bywydau ac mae sicrhau bod gan weithwyr lais a bod gwaith yn deg yn fuddiant cyffredinol hollbwysig i lesiant pobl Cymru. Fodd bynnag, mae arferion cyflogaeth sy'n niweidiol i lesiant unigolion yn ein barn ni. Er enghraifft, er bod rhai achosion lle mae contractau dim oriau yn gweithio i gyflogwyr a gweithwyr pan fo cytundeb ar y naill ochr a'r llall, mae llawer o achosion lle maent yn creu sefyllfa ansicr o ran incwm.
43. Mae ein cynigion i ymgorffori partneriaeth gymdeithasol yn ystyried tystiolaeth o'r effaith y gall partneriaeth gymdeithasol, cydfargeinio a chynrychiolaeth gweithwyr drwy undebau llafur ei chael ar sicrhau cymdeithas fwy cyfartal yng Nghymru. Mae cydfargeinio yn cynnig manteision i weithwyr a chyflogwyr, gan sicrhau bod gan y naill a'r llall lais cyfartal ac y gallant ddod i gytundebau sy'n deg.
44. Bydd cryfhau partneriaeth gymdeithasol yn arwain at fwy o ymgysylltu rhwng cyflogwyr ac undebau llafur ac â'r Llywodraeth ar faterion o gyd-fuddiant a gall hynny lywio polisïau'n well er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant.
45. Mae gwaith yn fecanwaith cymdeithasol y mae ein holl gymunedau yn rhyngweithio drwyddo i ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae ein llesiant cyfunol yn dibynnu arnynt. Ar lefel unigol, mae gwaith teg, diogel a boddhaus yn grymuso pobl i ddiwallu eu hanghenion, yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad ac yn galluogi unigolion i gyfrannu, datblygu a thyfu. Ar lefel gymdeithasol, mae gwaith teg yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, cyfranogiad a datblygiad cymdeithasol ac economaidd. Drwy ddiwygio nod Cymru Lewyrchus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, bydd y Bil yn cryfhau'r cysylltiad rhwng gwaith teg a llesiant unigol ac ar y cyd.
46. Mae cofnodi profiadau bywyd ein pobl a'n cymunedau o faterion sy'n berthnasol i'r agenda gwaith teg yn bwysig o ran llywio'r ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu. Mae'r partneriaid cymdeithasol, ac yn benodol yr undebau llafur, yn cynnig modd i gofnodi profiadau bywyd, ond rydym hefyd yn cydnabod bod angen parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl a chymunedau, ac yn benodol y rhai sydd â

nodweddion gwarchodedig fel y gallwn ddysgu o brofiadau bywyd a llywio ein polisïau gan gadw'r profiadau bywyd hynny mewn cof.

47. Bydd ymgysylltu o'r fath yn digwydd yn rhannol drwy ymatebion undebau llafur i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o undebau wedi'u strwythuro mewn ffordd sy'n cofnodi profiadau, pryderon a safbwyntiau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae llawer o strwythurau mewnol undebau hefyd yn seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol. Felly, er, yn amlwg, bydd angen adeiladu mewn ffyrdd eraill i gofnodi'r profiadau bywyd hynny, bydd hyn (o leiaf yn rhannol) yn cael ei gofnodi drwy'r strwythurau undebol – er bod hyn ond yn cwmparu pobl sy'n gweithio. Yn y cyd-destun hwn, dylai undebau gael eu hystyried yn gasgliad o leisiau gweithwyr yn hytrach na rhanddeiliad unigol.

2.2 Hawliau Plant

48. Penderfynwyd nad oes angen asesiad effaith llawn. I'r graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chynllunio i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant a phobl ifanc.
49. Mae'r diwygiad arfaethedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn golygu y bydd angen i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddeddf ystyried sut y gall gwaith teg gyfrannu at eu hamcanion llesiant yn gyffredinol a'u hymdrechion i gyflawni nod llesiant "Cymru Lewyrchus" yn benodol. Bydd hyn ond yn cael effaith anuniongyrchol ar blant o dan 16 oed. Mae posibilrwydd o effaith uniongyrchol ar bobl ifanc 16-18 oed sy'n gweithio neu sy'n chwilio am waith, a hynny am y bydd y cyrff cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ystyried pa weithgarwch y gallant ymgymryd ag ef i hyrwyddo gwaith teg wrth geisio cyflawni'r nodau llesiant. Gallai hyn gynnwys gweithgarwch sy'n cyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ymhlith y rhai sy'n gweithio ac effaith hynny ar dlodi plant. Hefyd, gallai arwain at hyrwyddo mwy o hyblygrwydd sy'n canolbwyntio ar weithwyr sy'n gwella gallu gweithwyr i gyfuno gwaith â chyfrifoldebau gofalu am blant. Mae pwysigrwydd gwaith o ansawdd gwell i incwm aelwydydd, safonau byw a chyfleoedd bywyd wedi'i ategu gan dystiolaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree, Sefydliad Bevan ac eraill.
50. Bydd y dyletswyddau ynglŷn â chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn arwain at fwy o ddiwydrwydd dyladwy wrth gontractio cadwyni cyflenwi awdurdodau ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar fynd i'r afael â risgiau llafur plant a chamfanteisio mewn cadwyni cyflenwi, gan gynnwys y rhai sy'n ymestyn dramor. Er y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol, nid oes modd ei mesur ar hyn o bryd am ei bod yn amhosibl gwybod i ba raddau y bydd y dyletswyddau yn atal parhad camfanteisio sy'n digwydd eisoes.

2.3 Cydraddoldeb

51. Prif ddarpariaeth y Bil yw gwella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a

chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol ac felly mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awgrymu y gall y Bil gael effeithiau cadarnhaol ar bob nodwedd warchodedig.

52. Mae'n orfodol cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae un wedi cael ei gwblhau. Gellir ei weld yn Atodiad B.

2.4 Prawfesur gwledig

53. Nid yw'r cynigion hyn wedi'u cynllunio i greu unrhyw effeithiau gwahanol i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn cymunedau gwledig o'u cymharu ag unrhyw gymunedau eraill yng Nghymru.
54. Fodd bynnag, mae'r dyletswyddau caffael yn benodol wedi'u cynllunio i ymgorffori blaenoriaethau polisi ym maes caffael a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw datblygu economïau lleol a sylfaenol. Bydd arferion caffael da yn hyrwyddo twf economïau lleol a'r defnydd o fusnesau lleol, a fydd yn helpu i sicrhau Cymru sy'n fwy cydnerth, Cymru o gymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a bydd meithrin arferion cyflogaeth da hefyd yn gwella llesiant pobl.

2.5 Lechyd

55. Bydd y dyletswyddau ynglŷn â phartneriaeth gymdeithasol yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus geisio cyfaddawd neu gonsensws â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill eu staff yn cefnogi amgylcheddau gwaith iachach. Bydd y dyletswyddau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn hyrwyddo ffocws ar effaith hirdymor polisi a phenderfyniadau, ac yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau mynych megis anghydraddoldebau iechyd.
56. Gall gwaith annheg gael effaith niweidiol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ond ar y llaw arall gall gwaith teg gael manteision cadarnhaol i iechyd. Mae gan bob gweithiwr yr hawl i fod yn ddiogel ac yn iach yn y gweithle ac fel rhan o'r ffordd rydym yn hyrwyddo gwaith teg, rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod gweithwyr yn cael gwybodaeth briodol, cyngor a hyfforddiant ac y sicrhau bod lleisiau gweithwyr yn cael eu clywed er mwyn i gyflogwyr wneud addasiadau priodol. Bydd y Bil yn helpu i annog gyrff cyhoeddus i ystyried materion o'r fath.

2.5 Preifatrwydd

57. Mae asesiad o'r effaith ar breifatrwydd wedi cael ei gwblhau a gellir ei weld yn Atodiad D.

ADRAN 3.BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

3.1 Llesiant Diwylliannol

58. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden' Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth annirweddol fel traddodiadau; mae'r celfyddydau yn cynnwys y sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llên, theatr a chelf, ac mae chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elít a chwaraeon cymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? (ar gyfer y Gymraeg, gweler adran 3.2)

59. Nid oes unrhyw gysylltiad wedi'i nodi rhwng y cynigion hyn a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel nodau diwylliannol.

3.1b A allai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?

60. Nid oes unrhyw gysylltiad wedi'i nodi rhwng y cynigion hyn a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel nodau diwylliannol.

3.2Y Gymraeg

61. Mae cymunedau cydlynus lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ymhlith ein nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

62. Mae'r Bil yn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant a chael effaith gadarnhaol arnynt drwy bartneriaeth gymdeithasol drwy annog cyflogwyr ac undebau llafur i gydweithredu, o fewn sefydliadau, o fewn sectorau a chyda'r Llywodraeth, ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus a chryfhau'r economi leol.

63. Yn y canllawiau statudol sy'n cefnogi darpariaethau caffael y Bil, caiff y materion hyn eu hystyried ymhellach. Mae'r Bil yn cyfeirio'n benodol at "llesiant diwylliannol" sy'n cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg.

64. Fel corff cynghori cyhoeddus, bydd y CPG yn ddarostyngedig i gyfres gyhoeddedig o Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysol o ran siaradwyr Cymraeg ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn genedlaethol. Caiff manylion pellach ynglŷn â safonau'r Gymraeg y bydd yn rhaid i'r CPG gydymffurfio â nhw eu cyhoeddi cyn i'r Cyngor gael ei roi ar waith.
65. Gweler Atodiad E isod.

ADRAN 4.BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf economi Cymru, a threchu tlodi drwy hynny, wrth wraidd Rhaglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru.

4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

66. Mae'r cynigion ar gyfer dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol a'r CPG yn rhoi cyfleoedd i fusnesau a gweithwyr, drwy eu hundebau llafur, gynghori Gweinidogion Cymru ar ganlyniadau polisi i fusnesau.
67. Mae profiad o'r Comisiwn Gwaith Teg wedi dangos bod ffactorau a materion yn codi lle mae cyflogwyr, undebau llafur a'r llywodraeth am weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion cyffredin. Mae partneriaeth gymdeithasol yn cynnig dulliau cydweithredol sy'n mynd i'r afael ar y cyd â'r materion sy'n llywio gallu pobl i ymgysylltu a ffynnu yn y gweithle a gallu busnesau i ffynnu, a byddant yn helpu i ymateb i argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg ar gyfer gweithredu.
68. Mae'n bwysig nad yw busnesau sy'n cyflogi gweithwyr yn gyfreithlon ac yn deg yn cael eu tanseilio gan gystadleuwyr sy'n torri corneli yn y meysydd hyn. Rydym yn awyddus i ddeall ble mae hyn yn digwydd a sicrhau bod polisiâu a dulliau caffael y llywodraeth yn cefnogi arferion da. Un o ganlyniadau posibl unrhyw ofyniad i sicrhau gwell diwydrwydd dyladwy yn y maes hwn yw mai busnesau bach fydd yn ysgwyddo'r beichiau, gyda risg ganlyniadol y gall rhai benderfynu peidio â manteisio ar gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. I'r rhai sy'n cymryd rhan, efallai y bydd risgiau i'w busnesau os ydynt yn mabwysiadu telerau ac amodau penodol i'r staff sy'n gweithio ar y contract. Bydd y rhain yn dibynnu ar y telerau penodol a bydd yn bwysig bod unrhyw oblygiadau yn cael eu hystyried drwy ymgysylltu â chyflogwyr a gweithwyr ym mhob sector a thrwy'r CPG.
69. Mae'r cynigion yn cryfhau'r trefniadau presennol ac yn sicrhau y caiff seilwaith ei greu i reoli'r economi a gwariant cyhoeddus mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth i bawb; gwell gwasanaethau cyhoeddus, i fusnesau yng Nghymru ac i holl weithlu Cymru.
70. Nod y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol arfaethedig yw sicrhau manteision economaidd mewn amrywiol ffyrdd. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ystyried llesiant economaidd wrth gaffael, sy'n cynnwys ymgorffori hyn mewn cynlluniau caffael, prosesau, canlyniadau a gweithgarwch rheoli contractau. Bydd yn ofynnol i sefydliadau bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, sy'n cynnwys y rhai sydd wedi'u hanelu at sicrhau manteision economaidd. Byddai'r enghreifftiau yn cynnwys pennu amcanion mewn perthynas â'r ffordd y caiff prosiectau eu strwythuro fel y bydd cyfleoedd i ennill contractau ar gael i fusnesau lleol, neu i ddatblygu'r economi sylfaenol, neu fesurau i ehangu mynediad i gyfleoedd is-gontractio.
71. Mae'r categorïau a restrir ar gyfer datblygu cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cynnwys sicrhau a gorfodi taliadau prydlon mewn cadwyni cyflenwi, a

rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig. Drwy ymgorffori'r mathau hyn o gymalau yng nghadwyni cyflenwi contractau adeiladu mawr, a'i gwneud yn ofynnol iddynt gael eu monitro a'u cofnodi, bydd hynny'n cynyddu cyfleoedd, a lleihau rhai o'r risgiau i daliadau a wynebier gan fusnesau bach mewn cadwyni cyflenwi adeiladu. Bydd y ddyletswydd yn gosod disgwyliad ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y cymalau yn cael eu hatgynhyrchu drwy gadwyni cyflenwi cyfan a'u bod yn gweithredu arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth.

72. Bydd y cynigion hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar ganlyniadau eu gweithgarwch caffael. Caiff metrigau sy'n ymwneud yn benodol â manteision economaidd eu cynnwys, er enghraifft ar gontractau ac is-gontractau a roddir i fusnesau bach a busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, defnyddio cyfrifon banc prosiectau a defnyddio systemau eraill ar gyfer gwella economïau lleol a sylfaenol neu'r canlyniadau sy'n deillio o'r systemau hynny.

4.2 Y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill

73. Byddai'r cynigion yn cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwrpas i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'u hundebau llafur neu gynrychiolwyr eraill eu staff. Gall partneriaeth gymdeithasol wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at ein nod o leihau anghydraddoldeb. Drwy gynnwys y gweithlu mewn penderfyniadau allweddol, gallwn gefnogi gweithlu llawn cymhelliant ac ymrwymiad sy'n hollbwysig i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Gall cynnwys gweithwyr mewn gwaith cynllunio a phrosesau gwneud penderfyniadau hefyd gyfrannu at atebion arloesol. Bydd sefydlu'r CPG yn fodd i lais a chyfranogiad cyflogwyr a gweithwyr, drwy eu hundebau llafur, wella ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor a roddir i Weinidogion ac felly'r ffordd y caiff polisïau'r Llywodraeth eu datblygu a'u rhoi ar waith.
74. Disgwylir i'r broses o gryfhau a hyrwyddo cysondeb strwythurau partneriaeth gymdeithasol yn y sector cyhoeddus arwain at fwy o gydweithrediad rhwng cyflogwyr, undebau llafur a'r llywodraeth, gwella llesiant ein a chyfrannu at wasanaethau cyhoeddus gwell.
75. Yn 2019/20, gwnaeth y sector cyhoeddus yng Nghymru gaffael cynhyrchion a gwasanaethau gwerth tua £6.9 biliwn. Effaith y Bil fydd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio ddefnyddio grym pwrs y wlad i ysgogi canlyniadau cymdeithasol, gan gynnwys gwaith teg ac egwyddorion partneriaeth gymdeithasol eraill er mwyn gwella llesiant a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.
76. Mae tensiynau canfyddedig a gwirioneddol rhwng yr amcanion ehangach hyn a busnes gosod contractau sy'n ddefnydd da o arian cyhoeddus, gan sicrhau'r budd mwyaf posibl wrth ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau cyhoeddus sydd o dan bwysau. Gall gweithwyr proffesiynol caffael medrus helpu i ymdrin â'r tensiwn hwn, er enghraifft drwy nodi lle y gall mwy o ffocws ar nod llesiant penodol sicrhau cyfleoedd yn y tymor hwy a rheoli risgiau'n well. Mae pob ymarfer caffael yn wahanol, a bydd angen i'r dyletswyddau arfaethedig hyn gael eu hategu gan ganllawiau a all gael eu cymhwyso'n gymesur at gontractau mewn sectorau gwahanol, o faint gwahanol, gan

sefydliadau sy'n amrywio'n sylweddol o ran sgiliau ac adnoddau caffael. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i fuddiannau'r dyletswyddau hyn wrthbwysu'r costau gweithredu i gyrrf cyhoeddus. Bydd hefyd yn hanfodol rhoi hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â chaffael a rheoli contractau.

4.3 Y Trydydd Sector

77. Er na fydd y trydydd sector yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, mae aelodaeth y CPG yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd cyflogwyr yn y trydydd sector ac i weithwyr, drwy strwythurau cynrychioliadol undebau llafur. Bydd yr aelodaeth yn rhoi cyfle i'r trydydd sector, fel darparwr sefydledig gwasanaethau cyhoeddus a phartner cymdeithasol cydnabyddedig gymryd rhan a chael ei gynnwys mewn ymdrechion i wella llesiant a gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys drwy hyrwyddo gwaith teg).
78. Mae sefydliadau yn y trydydd sector hefyd yn ymgeisio am contractau cyhoeddus ac maent yn aml mewn sefyllfa dda i sicrhau canlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Drwy newid y ffocws oddi wrth leihau costau tuag at ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol, gall hynny ei gwneud hi'n haws i sefydliadau yn y trydydd sector sicrhau mwy o contractau cyhoeddus.

4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch cynnig:

A ydych yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd?

79. Ydyn

A ydych yn creu, yn dileu neu'n diwygio trosedd?

80. Ydyn

A allai eich cynnig gael unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder ee yn sgil mwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus?

81. Mae rhywfaint o botensial y gall y Bil hwn arwain at gamau sifil sy'n gyfreithiol orfodadwy mewn perthynas â chaffael gan y sector cyhoeddus yng Nghymru a hefyd, o bosibl, nifer bach iawn o Adolygiadau Barnwrol.
82. Yn benodol, mae posibilrwydd y bydd ymgyfreitha yn codi o dan y dyletswyddau er mwyn ystyried cynnwys cymalau penodol mewn contract adeiladu mawr a chontract allanol gwasanaethau. Bydd y rhain yn cael effaith drwy roi mwy o sylw ar weithgareddau mewn cadwyni cyflenwi, a allai olygu bod achosion o dorri rhwymedigaethau cyfreithiol yn dod i'r golwg.

83. Ym mhob un o'r meysydd hyn mae mesurau eisoes ar waith i fynd i'r afael ag achosion o dorri rhwymedigaethau, er enghraifft, cyfraith amgylcheddol neu daliad teg, drwy wahanol gyrff gorfodi sy'n bodoli at y diben hwn.
84. Nid yw'n debygol y bydd achosion yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Ei diben yw sicrhau mwy o drolywder a thrwy hynny atal sefydliadau sydd o bosibl yn ceisio cuddio arferion mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus nad ydynt yn gydymffurfio.
85. Felly, mae nifer yr achosion o ymgyfreitha a fydd yn gysylltiedig â'r Bil hwn yn debygol o fod yn fach.
86. Bydd y CPG yn cyngori Llywodraeth Cymru ar faterion a gwmpesir gan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Bydd unrhyw effaith debygol ar y system gyfiawnder drwy nodi unrhyw achosion o ymarfer anghyfreithlon y bydd angen rhoi gwybod i'r awdurdodau gorfodi perthnasol amdanynt.
87. ceir asesiad llawn o'r effaith ar gyfiawnder yn Atodiad H a gymeradwywyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

ADRAN 5.BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

88. O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu gan annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

Gofynnol ar gyfer pob cynnig:	Blaenoriaethau cenedlaethol, heriau a chyfleoedd y Polisi Adnoddau Naturiol	5.1a 5.1b
Gofynnol ar gyfer pob cynnig	Bioamrywiaeth	5.2 ac Atodiad F
Gofynnol ar gyfer pob cynnig	Newid yn yr Hinsawdd	5.3
Cynlluniau a rhaglenni penodol sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004	Asesiad Amgylcheddol Strategol	5.4 a Chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig
Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (ACA/AGA):	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	5.5 a Chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig
Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad	Asesiad o'r Effaith	5.6 a Chanllawiau'r Asesiad

a thref; trafndiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr; draenio tir a thrydan lle bo angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan y Rheoliadau amrywiol	Amgylcheddol	Effaith Integredig
---	--------------	--------------------

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

89. Ar ôl ystyried y cynigion yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Adnoddau Cenedlaethol, nodir effaith gadarnhaol ac felly nid yw asesiad effaith llawn wedi cael ei gynnal.
90. Mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau i wella llesiant amgylcheddol drwy ymgymryd â chaffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithas gyfrifol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi amcanion, strategaethau cyhoeddi ac adroddiadau blynyddol, a hefyd drwy gymryd yr holl gamau rhesymol i gyflawni eu hamcanion yn eu hymarferion caffael "rhagnodedig" mwy o faint. Mae llawer o gyfleoedd i fynd i'r afael â phob un o'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau hyn, sy'n rhychwantu'r holl gynllunio o lunio hyd at reoli contract.
91. Mae'r Bil hefyd yn nodi dyletswydd ar gynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu. Mae'r cymalau hyn wedi'u grwpiau'n categorïau lle y ceisir gwelliant. Mae categorï'r "amgylchedd" yn disgrifio gwelliannau sy'n "ei gwneud yn ofynnol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth."
92. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cymalau contract enghreifftiol ynglŷn â'r meysydd hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgynghori ar fanylion y cymalau hyn a'u datblygu a'r camau y dylai sefydliadau eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau.

5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a'r cyfleoedd canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

93. Ar ôl ystyried y cynigion yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Adnoddau Cenedlaethol, nodir effaith gadarnhaol ac felly nid yw asesiad effaith llawn wedi cael ei gynnal.

5.2 Bioamrywiaeth

94. Mae economi ac iechyd a llesiant Cymru yn dibynnu ar ecosystemau cadarn ac iach, sy'n darparu ein bwyd, dŵr glân a'r aer a anadlwn, y deunyddiau crai ac ynni ar gyfer ein diwydiannau ac sy'n ein diogelu rhag peryglon megis llifogydd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Felly, mae bioamrywiaeth yn hanfodol i gynnal ecosystemau sy'n darparu'r gwasanaethau hollbwysig y mae ein bywydau yn dibynnu arnynt. Pan fo bioamrywiaeth yn cael ei cholli a byth ei hadfer yn llawn o bosibl, mae'n effeithio ar allu ecosystemau i ymaddasu i newidiadau ac aflonyddu.
95. Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi cael ei gwblhau yn Atodiad F isod.
96. Mae asesiad llawn o'r effaith y gall caffael ei chael ar fioamrywiaeth wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru ¹. Noda 'we will strengthen our current approach to the use of the Sustainable Risk Assessment (SRA), where as part of the procurement planning process, practitioners are encouraged to consider – and record any decisions – around their impact on biodiversity, including how and from where materials are sourced. Our approach will emphasise the importance of the SRA as a tool for sustainable procurement and development, embed training, guidance and support for practitioners in its use, and utilise the planned fitness checks programme to monitor usage and performance'.
97. Byddwn hefyd yn ailbwysleisio a chefnogi arferion gorau o ran caffael amgylcheddol gynaliadwy drwy ein canllawiau statudol. Byddwn yn ceisio cyngor arbenigol wrth i'r canllawiau gael eu paratoi er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r datblygiadau polisi a'r adnoddau diweddaraf. Bydd y broses o gyflwyno adroddiadau blynyddol yn y Bil yn sicrhau y caiff metrigau perthnasol eu casglu a'u cofnodi.

5.3 Newid yn yr Hinsawdd

98. Nodwyd mai newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen inni leihau ein hallyriadau drwy gamau datgarboneiddio (5.3a) ac ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy gryfhau ein gallu i'w wrthsefyll (5.3b).

¹ Cynllun Gweithredu Adfer Natur | LLYW.CYMRU

5.3a Datgarboneiddio

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?

99. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cynnwys egwyddor blaenoriaethu lleihau carbon er mwyn sicrhau Sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. Bydd y canllawiau statudol ar y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn helpu sefydliadau i fynd i'r afael â'r egwyddor hon. Rydym yn disgwyl y bydd y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn cysylltu â Datganiad Polisi Caffael Cymru ac felly'n helpu sefydliad i gael effaith gadarnhaol ar allyriadau yng Nghymru, drwy'r dyletswyddau cyffredinol a'r canllawiau statudol sy'n eu hategu, a thrwy'r dyletswyddau i reoli contractau adeiladu a ddisgrifir yn adran 5.1a uchod.

Eglurwch eich penderfyniad i gynnal asesiad mwy trwyadl o'r effaith ar allyriadau ai peidio.

100. Nid oes modd mesur effaith y cynigion ar allyriadau ar hyn o bryd.

5.3b Addasu

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?

101. Nid oes angen asesiad effaith llawn o addasu i newid yn yr hinsawdd, ond bydd y Bil yn sicrhau y caiff ei ystyried. Bydd yn ofynnol ystyried addasu i newid yn yr hinsawdd yn y canllawiau statudol.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ai peidio yn ôl y gyfraith.

102. Nid yw'r cynigion yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol: amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafndiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir. Ac nid yw'r cynnig ychwaith yn nodi'r fframwaith ar gyfer datblygu caniatadau yn y dyfodol yn y meysydd uchod ac nid oes angen asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ai peidio yn ôl y gyfraith.

103. Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar unrhyw un o'r safleoedd gwarchodedig a restrir isod. Felly, nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd llawn wedi cael ei gynnal.

- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA);
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig;
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig;
- Darpar Ardal Gwarchodaeth Arbennig;
- Safle Ramsar (safleoedd a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar gyfer gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol);
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Eglurwch eich penderfyniad ynghylch a oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio yn ôl y gyfraith.

104. Ni fydd y cynigion yn cynnwys unrhyw un o'r eitemau canlynol, felly nid oes angen asesiad effaith llawn:

- Adeiladu, mwyngloddio, cloddio neu waredu gwastraff ar dir ac yn y môr (gan gynnwys datblygu trefol, priffyrdd, porthladdoedd, ynni, amaethyddiaeth a ffermio pysgod);
- Newid defnydd tir;
- Coedwigo neu ddatgoedwigo;
- Gwelliant amaethyddol mewn ardaloedd heb eu trin neu ardaloedd lled-naturiol;
- Ailstrwythuro daliadau tir gwledig;
- Tynnu dŵr neu ddraenio tir.

ADRAN 6.Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

6.1 Y ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

105. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i benderfyniadau sydd o natur strategol yn unig.
106. Er mwyn dangos bod y 'sylw dyledus' hwnnw wedi'i roi, cedwir trywydd archwilio tystiolaeth ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y Ddyletswydd. Bydd yr asesiad effaith hwn yn rhan o'r trywydd tystiolaeth hwn.
107. Nod cyffredinol y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dibynnu ar waith partneriaeth da ac yn cysylltu â chynlluniau i gryfhau ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwyntiau gwahanol ac yn cefnogi'r ddyletswydd drwy sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol penodol yn gwneud hynny drwy gydweithredu â phartneriaid cymdeithasol.
108. Gweler yr Asesiad Effaith Economaidd-gymdeithasol Llawn yn Atodiad G.

ADRAN 7.COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

109. Rydych nawr wedi penderfynu ar y meysydd hynny lle bydd angen cynnal asesiad effaith mwy manwl. Rhestrwch y rhain isod.

Asesiad Effaith	Oes/Nac oes	Os oes, dylech wneud y canlynol:
Hawliau plant	Nac oes	Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant isod
Cydraddoldeb	Oes*	Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	Oes	Cwblhewch yr Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol isod
Prawfesur gwledig	Nac oes	Llenwi'r Error! Reference source not found. isod
Iechyd	Nac oes	Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig
Preifatrwydd	Oes	Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd isod
Y Gymraeg	Oes	Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg isod
Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Oes	Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig
Cyfiawnder	Oes	Llenwi'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar y fewnrwyd
Bioamrywiaeth	Oes*	Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth isod
Newid yn yr Hinsawdd	Nac oes	Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes	Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes	Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes	Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig

* Yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau statudol.

ADRAN 8.CASGLIAD

8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

- Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid ynglŷn â datblygu polisi ar gyfer y Bil a chyhoeddodd Fil drafft ac Arfarniad Effaith Rheoleiddiol drafft ar gyfer ymgynghoriad ar 26 Chwefror 2021; daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Ebrill 2021.
- Cyflwynwyd yr ymgynghoriad i nifer o sefydliadau megis Chwarae Teg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Meithrin Cymru, Sefydliad Bevan a Chymdeithas Feddygol Prydain Cymru. Ochr yn ochr â'r brif ddogfen ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru wyth gweithdy i randdeiliaid a hwyluswyd yn annibynnol ar yr ymgynghoriad a nifer o sesiynau briffio i'r rhai â diddordeb,
- Cyflwynwyd cyfanswm o 85 o ymatebion gan nifer o bartneriaid cymdeithasol, sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd cryn gefnogaeth i ddarpariaethau'r Bil a chytundeb cyffredinol ynglŷn ag elfennau allweddol o'i gynnwys. Cafwyd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y bydd y ddeddfwriaeth yn cryfhau'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol yng Nghymru. Ceir adroddiad cryno o'r ymatebion yn <https://llyw.cymru/bil-drafft-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru>
- Ers ymgynghori ar y Bil drafft y llynedd, bu ymgysylltu estynedig a pharhaus â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill. Yn benodol, mae'r Dirprwy Weinidog a swyddogion wedi cyfarfod sawl gwaith â TUC Cymru a phartneriaid undebol eraill i drafod y broses o ddatblygu polisïau'r Bil.
- Mae safbwyntiau partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid yr ymddiriedir ynddynt wedi cael eu hystyried wrth lunio'r cynigion polisi terfynol ar gyfer y Bil.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dylid defnyddio'r adran hon i helpu i lenwi adran 6 o'r templed Cyngor Gweinidogol

Crynowch yr effeithiau mwyaf arwyddocaol a ddisgwylir o ganlyniad i'r cam gweithredu arfaethedig ar bobl a diwylliant Cymru, ar y Gymraeg, ac ar economi ac amgylchedd Cymru. Disgrifiwch y themâu a gododd wrth gynnwys pobl. Cyfeiriwch at y saith nod llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Cyferbynnwch hyn ag effaith camau gweithredu presennol Llywodraeth Cymru os yw hynny'n briodol.

- Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi ceisio gweithio mewn partneriaeth i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion i'r heriau economaidd, yr heriau

cymdeithasol a heriau eraill y mae Cymru yn eu hwynebu. Proses gyfranogol yw partneriaeth gymdeithasol, lle mae partneriaid cymdeithasol yn cydweithredu ac yn datrys problemau ar y cyd mewn meysydd o gydfuddiant.

- Drwy wneud partneriaeth gymdeithasol yn statudol drwy'r Bil hwn, byddwn yn:
 - ychwanegu at gyfraniad undebau llafur a chyflogwyr yn sylweddol wrth geisio cyflawni ein nodau llesiant ehangach i Gymru;
 - gwarantu llais cryf i weithwyr, drwy undebau llafur, wrth lunio'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus a gwella llesiant;
 - rhoi ffocws newydd ar waith teg yng Nghymru a rhoi hwb newydd i weithredu i'w sicrhau, wedi ein llywio gan waith y CPG;
 - sicrhau y daw caffael cyhoeddus yn ffordd llawer mwy effeithiol o sicrhau gwerth cymdeithasol a chefnogi canlyniadau polisi strategol allweddol.
- Mae'r Bil yn darparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu canlyniadau polisi a bydd yn dibynnu ar well cydweithio rhwng y rhai sy'n ymwneud â phennu polisiau a'u rhoi ar waith yn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus eraill. Yr un fydd y cyrff cyhoeddus o fewn cwrdd y partneriaeth gymdeithasol a'r dyletswyddau gwaith teg yn y Ddeddf â'r cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Un o ddibenion allweddol y Bil yw ychwanegu at gyfraniad gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol rhwng y llywodraeth, undebau llafur a chyflogwyr at gyflawni'r nodau llesiant a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Drwy greu CPG statudol, gall Gweinidogion Cymru gael cyngor mwy cyson a gwell ar effaith hirdymor penderfyniadau polisi. Bydd y CPG (a strwythurau partneriaeth gymdeithasol gysylltiedig eraill sydd eisoes ar waith) yn cynnig fforwm i gydlunio atebion effeithiol i broblemau polisi cyhoeddus pwysig a bydd yn helpu Gweinidogion Cymru i adolygu effeithiolrwydd ymyriadau polisi dros amser.
- Bydd y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil yn helpu i atal ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cytundebol, a all, yn ei dro, atal torri corneli sy'n gallu arwain at raddol leihau amodau cymdeithasol ac amgylcheddol. Maent yn gofyn am reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.
- Bydd gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur yn benodol yn cael effeithiau cadarnhaol am fod eu strwythurau cynrychioliadol democrataidd yn gallu cofnodi profiadau, pryderon a safbwyntiau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. At hynny, mae llawer o strwythurau mewnol undebau hefyd yn seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol.
- Canfu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg hefyd, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg, gwasgaru cyfleoedd yn well yn ddaearyddol, cynnydd yn nifer y

cyflenwyr Cymraeg mewn cadwyni cyflenwi a chryfhau egwyddorion Safonau'r Gymraeg i fwy o gyflogwyr.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i hyrwyddo bioamrywiaeth, hawliau plant, cydraddoldebau, y Gymraeg neu un o'r meysydd eraill sydd wedi'u cynnwys yn eich asesiadau effaith?

Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i atgyfnerthu ei chyfraniad at nod penodol neu gyfrannu at nodau ychwanegol?

Pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i osgoi, ostwng neu lliniaru effaith negyddol?

Os na chaiff camau eu cymryd i osgoi, unioni neu lliniaru effaith negyddol, eglurwch y rheswm dros hynny.

- Mae amrywiol effeithiau lefel uchel allweddol wedi cael eu nodi yn y ddogfen hon felly ni chânt eu hatgynhyrchu'n fanwl yma. Er enghraifft, wrth ymdrechu i wella gwasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo canlyniadau gwaith teg a chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd yn y gweithlu ac yng Nghymru, mae hyn yn cael manteision canlyniadol mewn cymdeithas i weithwyr a'u teuluoedd, a chyflogwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
- Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae'r cynigion hyn yn rhyngweithio â'r nodau llesiant a sut y byddwn yn gweithredu ar egwyddorion llesiant a phartneriaeth gymdeithasol gyda'n gilydd.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Pa gynlluniau sydd ar waith i wneud gwaith adolygu a gwerthuso ôl-weithredu?

- Fel rhan o'r broses ymgynghori, aeth cydweithwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ati i lunio damcaniaeth newid fel sail dros werthuso'r Bil ar sail amcangyfrifon. Cymerodd swyddogion mewnol Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol perthnasol ran mewn cyfres o dri gweithdy a oedd yn cwrmpasu prif elfennau'r Bil: gwaith teg, partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol. Gwnaeth y gweithdai hyn gyfrannu at y gwaith o gytuno ar ganlyniadau'r Bil ar gyfer pob un o'r tair elfen, a thrafod risgiau a chanlyniadau anfwriadol yr ymyriadau arfaethedig a'r metrigau priodol i'w defnyddio i roi tystiolaeth o'r canlyniadau hyn.

Data ac Ystadegau

- Fel yr amlinellwyd yn adroddiad Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, mae pob un o dair elfen y Bil yn gydgysylltiedig ac adlewyrchir hyn mewn rhywfaint o orgyffwrdd yng nghynnwys y tri model rhesymeg. Er bod y nodau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol yn ddibenion ynddynt hwy eu hunain ac mae iddynt ganlyniadau penodol, maent hefyd yn cyfrannu tuag at wella canlyniadau gwaith teg.

(i) Gwaith Teg

- Mae gwaith Damcaniaeth Newid hefyd wedi parhau â'r drafodaeth am addasrwydd ac argaeledd data a gychwynnwyd yn Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (2019). O ganlyniad, mae swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi gwaith teg, ar y cyd ag ystadegwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, wedi cytuno ar gyfres o ganlyniadau ar gyfer gwaith teg, sy'n defnyddio'r ffynonellau canlynol;
- Arolygon gan gyflogwyr, gan gynnwys; Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr, Arolwg Cenedlaethol Cymru, a Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).
- Arolygon ar lefel unigolyn, gan gynnwys; Arolwg o'r Llafurlu, Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Dysgu Gydol Oes Cymru, a'r Arolwg o Hawliau a Phrofiadau Cyflogeion
- Bydd adroddiadau rheolaidd ar fetrigau perthnasol i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau gwaith teg, yn ogystal ag ymchwil ansoddol a wneir fel rhan o'r gwerthusiad hefyd yn cael eu paratoi.

(ii) Partneriaeth Gymdeithasol

- Ym mis Mawrth 2021, anfonodd cydweithwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi arolwg at gyrff cyhoeddus a sefydliadau addysgol, gan eu holi am eu trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol. Nodau'r arolwg oedd cael darlun clir o'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol mewn nifer o sefydliadau cyhoeddus a chanfod dealltwriaeth ymatebwyr o bartneriaeth gymdeithasol yn y sefydliadau hyn. Byddai'r data hyn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o drefniadau partneriaeth gymdeithasol cyn pasio'r Bil. Bydd y data ar gael i werthuswyr yn y dyfodol.
- Gan adeiladu ar yr arolwg, bydd gwaith ymchwil pellach gyda'r sector hwn, yn ogystal â'r sector preifat a'r trydydd sector yn cael ei wneud er mwyn deall sut y caiff partneriaeth gymdeithasol ei diffinio a'i rhoi ar waith yn y sectorau hyn, a mesur sut mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r CPG wedi datblygu ers i'r Bil gael ei roi ar waith.

- Mae rhai o'r canlyniadau a nodir yn y ddamcaniaeth newid ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, er enghraifft o ran newid ymddygiadol a diwylliannol, yn llai addas ar gyfer mesurau meintiol ac felly bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy ddefnyddio dulliau gwerthuso pwrpasol yng nghanol y broses werthuso neu ar y cam olaf, er enghraifft drwy ddefnyddio grwpiau ffocws neu astudiaethau achos.
- Bydd angen ystyried ffactorau allanol wrth asesu effaith y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r CPG ar gyflawni amcanion gwaith teg.

(iii) Caffael cymdeithasol gyfrifol

- Gellir asesu effaith y Bil ar sicrhau'r canlyniadau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau, gan gynnwys;
- Adnoddau mesur gwerth cymdeithasol;
- Data a ddelir eisoes gan Lywodraeth Cymru ar ddyfarnu contractau;
- Llwyfannau hysbysebu ymarferion caffael, megis gwerthwchigymru, Caffael i Dalu Cymru Gyfan (y GIG), a chynlluniau cyfatebol eraill ar gyfer sectorau gwahanol;
- Data perfformiad a gwella awdurdodau lleol;
- Llwyfan Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi.

110. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi gwneud awgrymiadau ynghylch pa ddata o ba ffynonellau y gellir eu defnyddio yn yr adroddiad Damcaniaeth Newid. Byddai data atodol hefyd yn cael eu casglu fel rhan o werthusiad ffurfiol.

ADRAN 9.DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr: Neil Surman

Adran: Y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

Dyddiad: 17 Hydref 2021

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod y Bil yw hyrwyddo a sicrhau cyfle cyfartal i bawb, p'un a ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig ai peidio, a lywir drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?
Oedran (meddyliwch am grwpiau oedran gwahanol) Pobl 18-50	Effaith gadarnhaol bosibl	Mae'r cynigion yn y Bil wedi'u targedu'n uniongyrchol at wella llesiant, gan gynnwys llesiant cymdeithasol ac economaidd a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Wrth geisio cryfhau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a sicrhau ei bod yn fwy cyson, wrth ystyried gwaith teg fel rhan o nod llesiant Cymru lewyrchus a sicrhau bod llesiant yn un o ystyriaethau allweddol ym maes caffael cyhoeddus, mae'r Bil yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar bobl o oedran	

		gweithio. Gall gwell gwasanaethau cyhoeddus a grëir drwy brosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol gael effaith gadarnhaol ar bobl o'r grŵp oedran hwn.	
Pobl hŷn (dros 50 oed)	Effaith gadarnhaol bosibl	Mae'r cynigion yn y Bil yn mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn a gyflogir yn y gweithle drwy geisio hyrwyddo canlyniadau gwaith teg. Mae'r Bil hefyd yn ceisio gwella llesiant, gan gynnwys llesiant cymdeithasol ac economaidd, yng Nghymru a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Gallai gwelliannau i lesiant cyffredinol a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn a'u teuluoedd, yn gyffredinol a thrwy fesurau wedi'u targedu posibl mwy penodol i gefnogi pobl hŷn a'u teuluoedd.	
Anabledd	Effaith gadarnhaol	Nid yw'r cynigion yn y Bil	

(ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd ² a sut y gallai eich cynnig achosi, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy'n analluogi pobl sydd â gwahanol fathau o namau) Nam ar y golwg	bosibl	yn mynd i'r afael ag anghenion pobl anabl yn uniongyrchol. Mae partneriaid undebol wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn naturiol yn ceisio rhoi sylw i safbwyntiau a phrofiadau'r rhai â nodweddion gwarchodedig – yna caiff y safbwyntiau a'r profiadau hyn eu cynrychioli drwy drefniadau partneriaeth gymdeithasol. Bydd hyn yn gymwys i bob maes cydraddoldeb.	
Nam ar y clyw	Effaith gadarnhaol bosibl	Fodd bynnag, mae'r Bil yn ceisio hyrwyddo gwaith teg, sy'n cynnwys hyrwyddo mynediad teg i weithlu cynhwysol a sicrhau bod hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu.	
Anabledd corfforol	Effaith gadarnhaol bosibl		
Anabledd dysgu	Effaith gadarnhaol bosibl		
Problem iechyd meddwl	Effaith gadarnhaol bosibl	Ceir potensial i gael effaith gadarnhaol drwy'r dyletswyddau	

² Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'y model cymdeithasol'.

Namau eraill	Effaith gadarnhaol bosibl	caffael cymdeithasol gyfrifol oherwydd bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus bennu amcanion yn erbyn nodau llesiant sydd hefyd yn mynd i'r afael â lleihau anghydraddoldebau. Er enghraifft, ystyried hygyrchedd gwasanaeth i bobl ag anabledau.	
Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)	Effaith gadarnhaol bosibl	Nid yw'r cynigion yn y Bil yn effeithio'n benodol ar bobl am eu bod yn drawsrywiol neu eu bod yn y broses o ailbennu eu rhywedd. Fodd bynnag, mae'r Bil yn ceisio hyrwyddo gwaith teg a phrosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol gan gyrff cyhoeddus sy'n ystyried llesiant. Gall hyn gael effaith gadarnhaol o bosibl ar bobl sy'n drawsrywiol ac sydd yn y broses o ailbennu eu rhywedd, sy'n fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu yn y gweithlu a chymdeithas yn fwy cyffredinol.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Effaith gadarnhaol	Mae'r cynigion yn y Bil yn ceisio hyrwyddo gwaith teg a phrosesau	

		gwneud penderfyniadau mwy cynhwysol drwy bartneriaeth gymdeithasol. Mae diogelu hawliau gweithwyr yng Nghymru yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun beichiogrwydd a mamolaeth, lle mae risg benodol o wahaniaethu a risg y bydd cyflogwyr yn gwneud penderfyniadau, yn fwriadol neu'n anfwriadol, a fyddai'n cael effaith andwyol iawn ar fenywod sy'n feichiog a mamau yn eu gweithlu.	
Pobl ethnig leiafrifol e.e. Asiaidd, Du	Effaith gadarnhaol bosibl	Nid yw'r cynigion yn y Bil yn mynd i'r afael â hil na chefnidir yn uniongyrchol. Fodd bynnag, wrth geisio gwella cydraddoldeb a hyrwyddo gwaith teg yng Nghymru, bydd y cynigion yn y Bil drafft yn cael effaith benodol ar bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ogystal â cheiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr eraill.	
Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig)	Effaith gadarnhaol bosibl		
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid	Effaith gadarnhaol bosibl		
Sipsiwn a Theithwyr	Effaith gadarnhaol bosibl		
Mudwyr	Effaith gadarnhaol bosibl		

		Mae tystiolaeth yn dangos bod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu ar sail hil a chefnidir ac, fel y dengys y dystiolaeth, yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau o'r economi lle mae llai o ddiogelwch ar gyfer llesiant gweithwyr.	
Crefydd a chred a diffyg cred	Effaith gadarnhaol bosibl	Nid yw'r cynigion yn y Bil yn effeithio'n benodol ar bobl oherwydd eu crefydd, eu cred neu ddifffyg crefydd neu gred. Fodd bynnag, wrth geisio hyrwyddo gwaith teg a sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau mwy cynhwysol, bwriedir i'r darpariaethau yn y Bil ddiogelu hawliau gweithwyr â phob nodwedd warchodedig, gan gynnwys crefydd. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd dyletswyddau caffael yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion y rhai â chrefyddau gwahanol	

		wrth lunio a chaffael gwasanaethau cyhoeddus a chynhyrchion, er enghraifft; bwyd.	
Rhyw / Rhywedd	Effaith gadarnhaol bosibl	Nid yw'r cynigion yn y Bil yn mynd i'r afael â rhyw / rhywedd yn uniongyrchol.	Nid yw gwaith teg i'w gael ym mhob man ac nid yw ychwaith wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ac mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle yn rhan annatod o waith teg. Nid yw'r Bil yn rhagnodol yn glŷn ag unrhyw agwedd benodol ar waith teg. Fodd bynnag, byddwn yn datblygu canllawiau a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ddeall gwaith teg yn well a sut y gallant ei ystyried mewn perthynas â'r Bil hwn. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw at ba mor bwysig ydyw bod cyrff cyhoeddus yn ei ddeall a chymryd camau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, gwahanu yn ôl galwedigaeth a bylchau cyflog mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig.

Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Dim effaith	Nid yw'r cynigion yn effeithio'n benodol ar bobl oherwydd eu rhywioldeb. Fodd bynnag, nod y Bil yw hyrwyddo gwaith teg a phrosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol gan gyrff cyhoeddus sy'n ystyried llesiant. Gall hyn gael effaith gadarnhaol o bosibl – ond effaith gymharol fach ar bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol sydd yn ôl LGBT in Britain - Work (stonewall.org.uk) a National LGBT Survey: Summary report - GOV.UK (www.gov.uk) yn fwy tebygol o wynebu gwahaniaethu yn y gweithlu ac mewn cymdeithas yn fwy cyffredinol.	
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim effaith	Nid yw'r cynigion yn effeithio'n benodol ar bobl oherwydd eu statws priodasol.	
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Effaith gadarnhaol bosibl	Mae'r cynigion yn y Bil yn mynd i'r afael ag anghenion y bobl iau hynny a gyflogir yn y gweithle drwy geisio hyrwyddo canlyniadau gwaith teg.	

		Mae'r Bil hefyd yn ceisio gwella llesiant, gan gynnwys llesiant cymdeithasol ac economaidd, yng Nghymru a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Gall gwelliannau i lesiant cyffredinol a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus gael effaith gadarnhaol o bosibl ar deuluoedd a phobl iau, yn gyffredinol a thrwy fesurau wedi'u targedu posibl mwy penodol i gefnogi teuluoedd a phobl iau.	
Aelwydydd incwm isel	Effaith gadarnhaol bosibl	Nid yw manteision twf economaidd cyson wedi'u dosbarthu'n gyfartal ac mae pobl yn cael eu gadael ar ôl wrth i gyfraddau tlodi mewn gwaith barhau i gynyddu. Mae'r mesurau yn y Bil yn ceisio gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gwella llesiant, gan gynnwys drwy'r nodau llesiant, hyrwyddo gwaith teg a cheisio creu cymdeithas a gweithlu mwy cyfartal a mwy	

		cynhwysol yng Nghymru. Bydd y mesurau hyn yn cael effaith benodol ar aelwydydd incwm isel. Mae aelwydydd o'r fath yn fwy tebygol o gynnwys unigolion sydd wedi'u hallgáu o'r gweithlu neu sydd mewn swyddi llai sefydlog nad ydynt yn cyrraedd safonau disgwyledig gwaith teg o bosibl, gydag effeithiau niweidiol ar lesiant. Hefyd, mae'n fwy tebygol y bydd angen gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn effeithiol ymhlith pobl mewn aelwydydd incwm isel.	
--	--	---	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? (*Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig*).

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?

Hawliau Dynol, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig	Effaith gadarnhaol	Mae'r cyfeiriad at waith teg yn y Bil yn tanlinellu Erthygl 4 o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol sy'n ymwneud â chaethwasiaeth a chaethwasanaeth. Bydd y ddyletswydd ynglŷn â chaffael hefyd yn rhoi cyfle i ymgorffori ymhellach fesurau i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ac achosion o dorri hawliau dynol mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus. Hefyd, mae cysylltiadau cadarn rhwng Erthygl 1 ynglŷn â hawliau sylfaenol pobl ac Erthyglau 23 a 24 ynglŷn â hawliau gweithwyr. Mae cysylltiadau cadarn rhwng erthyglau ychwanegol amrywiol megis Erthygl 25 ac Erthygl 27 a chysyniadau ehangach llesiant.	
---	---------------------------	---	--

Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

Mae Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU, ynghyd â Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE³ a'r Swistir a oedd yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020. ⁴

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a'r Cytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig⁵, bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswlydd newydd (naill ai statws preswlydd cyn-sefydlog neu statws preswlydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi y dylid rhoi sylw iddynt:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?
- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir eu bod yn briodol eu rheoli?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effaith eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn un gadarnhaol neu negyddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ddileu effeithiau negyddol posibl. Nodwch y rheswm dros eich ateb, gan gynnwys ble y ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd ble nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

³ Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal ag Ynys yr Île, Liechtenstein a Norwy.

⁴ Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

⁵ E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

Preswyllo – yr hawl i breswyllo a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswyllo: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswyllydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswyllo;

Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd;

Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Hawliau gweithwyr – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n preswyllo mewn un wladwriaeth ac sy'n gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

B. SGRINIO'R ASESIAD O EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Anfonwch eich asesiad i'r Uned Hawliau Gwybodaeth (YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru) gyda chopi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Neil Surman

Cyfeirir yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (rhif unigryw yr asesiad o'r effaith ar breifatrwydd hwn fel DivDate neu rif ishare y ddogfen)

Disgrifiwch eich cynnig:

Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cyflawni un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Bydd i'r ddeddfwriaeth oblygiadau sylweddol o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn gweithio ac o ran cyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru. Ar yr un pryd, rydym yn cynnal adolygiad o weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y ddeddfwriaeth.

Bydd y Bil hwn yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ("CPG") statudol a fydd yn ymgorffori safbwynt cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr wrth roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion penodol a nodir yn y Bil. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu is-grŵp caffael i'r CPG. Bydd y CPG yn cynnig system barhaol a pharhaus lle y gall undebau a chyflogwyr ddylanwadu ar weithgareddau, polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd yn rhaid i'r CPG brosesu data personol sy'n ymwneud ag (1) pobl sy'n rhan o'r Cyngor (ei aelodau), (2) swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau ysgrifenyddiaeth a (3) cynrychiolwyr sefydliadau sy'n cyflwyno sylwadau i'r Cyngor.

A yw'r holiadur sgrinio neu'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data eisoes wedi'i gynnal?

- Nac ydy

A yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw waith prosesu data personol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw un arall? Ydy Ticiwch unrhyw eitemau data personol a fydd yn cael eu prosesu (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr): Personol	
Enw ✓ Enw cyfeiriad ✓ Cyfeiriad Busnes ✓ Cod post ✓ Cyfeiriad e-bost ✓	Rhifau ffôn ✓ Dyddiad geni Rhif y drwydded yrru Rhif pasbort / cerdyn adnabod Lluniau / delweddau (y gellir eu defnyddio i adnabod unigolyn) Arall (nodwch) Ar gyfer aelodau'r CPG sy'n cael taliadau teithio a chynhaliaeth, bydd angen dal gwybodaeth bancio personol.
Categori Arbennig	
Tarddiad hiliol / ethnig Safbwyntiau gwleidyddol Cred grefyddol / athronyddol Aelodaeth o Undeb Llafur ✓ Cyflyrau iechyd corfforol / iechyd meddwl Bywyd rhywiol Cyfeiriadedd rhywiol Cofnodion troseddol a llys (gan gynnwys troseddau honedig)	Data biometrig e.e. DNA, olion bysedd

Os oes categori arbennig o ddata personol yn cael ei brosesu, a yw'r gwaith casglu data yn orfodol (h.y. nid oes hawl gan y bobl y mae'r data'n ymwneud â nhw i ddewis peidio eu rhoi)? Ydy - rhowch fanylion Bydd cynrychiolwyr gweithwyr sy'n aelodau o'r CPG yn darparu gwybodaeth am eu hymlyniad wrth undeb llafur.	
A yw unrhyw un o'r bobl y bydd eu data yn cael eu prosesu yn perthyn i un o'r categorïau a ganlyn? Ydyn Plant (dan 12 oed) Cleifion Ceiswyr Lloches Gweithwyr Llywodraeth Cymru ✓	
Bydd y CPG yn prosesu data aelodau sy'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, naw aelod sy'n cynrychioli gweithwyr a naw aelod sy'n cynrychioli cyflogwyr (y sector cyhoeddus, y trydydd sector, y sector preifat, Addysg Uwch ac Addysg Bellach).	
Ar gyfer y data personol sy'n cael eu prosesu, nodwch	
Pwy yw'r rheolydd data?	Y Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol fydd rheolydd y data o dan yr holl amgylchiadau.
Unrhyw brosesyddion data?	Bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu data.
A gaiff y data eu rhannu?	N chânt
Beth yw'r sail statudol ar gyfer prosesu'r data? Nodwch - nid yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ynddo'i hun yn darparu sail gyfreithiol statudol i brosesu data	

personol. Bydd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.
A yw'r gwasanaethau cyfreithiol wedi cadarnhau bod y sail a amlinellwyd uchod yn darparu'r porth statudol angenrheidiol ar gyfer prosesu (gan gynnwys unrhyw rannu arfaethedig)? • Ydyn
A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu data personol newydd neu sydd wedi newid yn sylweddol ynglŷn â phob unigolyn? Bydd. Am mai corff newydd sy'n cael ei greu yw'r CPG, bydd hyn yn golygu prosesu rhestr newydd o ddata personol.
A fydd y data personol yn cael eu cydgrynhoi, eu cysylltu neu eu paru â data o ffynonellau eraill? • Na fyddant.
A fydd y data personol yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau awtomatig? • Na fyddant.
A fydd y data personol yn arwain at fonitro gwrthrychau'r data yn systematig? • Na fyddant.
A yw'r cynnig yn cynnwys polisiâu/arferion casglu, cadw neu rannu data newydd neu sydd wedi newid, at ddefnydd personol? - Ydy
A oes gennych chi bolisi cadw clir a pha bethau ymarferol sydd wedi'u rhoi ar waith i

sicrhau bod eich Polisi Cadw yn cael ei ddilyn. Caiff Hysbysiad Preifatrwydd ei ddatblygu ar gyfer y CPG a'i gyhoeddi cyn dechrau prosesu unrhyw ddata.
A fydd y cynnig yn cynnwys cyflwyno technoleg sy'n amharu ar breifatrwydd fel • Cardiau smart • Tagiau Adnabod Amledd Radio • Biometreg • Gwyliadwriaeth weledol (e.e. TCC) • Delwedd ddigidol neu recordiad fideo • Proffilio, cloddio data neu logio traffig electronig • Technolegau lleoli (e.e. System Leoli Fyd-eang, system leoli ffôn symudol) • Arall (rhowch fanylion) Ni fydd dim un o'r rhain yn cael ei ddefnyddio.
A fydd y cynnig yn cynnwys prosesau rheoli neu ddilysu hunaniaeth newydd neu sydd wedi newid? • Na fydd
A fydd y cynnig yn galluogi adnabod unigolion a oedd yn ddienw yn flaenorol? • Na fydd

Anfonwch eich asesiad i'r Uned Hawliau Gwybodaeth (YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru) gyda chopi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

I'w lenwi gan yr Uned Hawl i Wybodaeth

A oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y cynnig hwn?

- Nac oes

Nid yw'r Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddata personol gael eu prosesu, felly nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a bennwyd gan Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.

A oes cyngor wedi cael ei roi ynghylch cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data?

- Oes

Mae Erthygl 36 (4) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data yn gosod gofyniad i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth ddatblygu cynigion polisi sy'n ymwneud â phrosesu data personol. Mae'r ffurflen hon wrthi'n cael ei chwblhau a'i hanfon i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.


C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i *Cymraeg 2050*:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

- a) Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):
- b) A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Mae'r Bil yn cael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg o dan bob un o'r tair thema, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i bobl sy'n siarad Cymraeg, gwasgaru cyfleoedd yn well yn

ddaearyddol, cynnydd mewn cyflenwyr mewn cadwyni cyflenwi sy'n siarad Cymraeg. Mae llawer o'r cyrff a fydd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan y Bil hwn eisoes yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg, a elwir yn Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Mesur y Gymraeg, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfiaeth i gyrff perthnasol yn nodi'r safonau sy'n gymwys i'r sefydliad penodol hwnnw. Ni fydd y Bil hwn yn effeithio ar y gofyniad ar gyrff i gydymffurfio â'r Safonau ond bydd yn atgyfnerthu egwyddorion Safonau'r Gymraeg i gyflogwyr.

Thema 1

Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae effeithiau i'r gweithlu addysg gan y bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i bennu amcanion llesiant, sy'n cynnwys llesiant diwylliannol a'r Gymraeg. Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn cynnwys undebau llafur, sy'n cynrychioli'r gweithlu, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Gallai'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol atgyfnerthu llais gweithwyr yn y sector addysg o bosibl. Bydd angen i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad ar sut y mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wedi llywio'r ffordd y maent wedi pennu amcanion llesiant. Yn ystod y broses o roi'r Bil ar waith, bydd cyfle i ddeall sut mae'r ffordd o weithio hon wedi llywio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i gyflawni ymrwymadau ynglŷn â'r Gymraeg.

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Un o nodau'r CPG fydd gwella llesiant diwylliannol yng Nghymru mewn perthynas â darpariaethau'r Bil, a all gynnwys y Gymraeg. Gallai'r CPG ddarparu gwybodaeth neu gyngor sy'n ymwneud â hygyrchedd y Gymraeg neu'r defnydd ohoni i gyrff cyhoeddus os yw hynny o fewn cwmpas darpariaethau'r Bil a gallai Gweinidogion Cymru yn eu tro gyhoeddi canllawiau neu gymryd camau eraill i fynd i'r afael â hyn.

Caffael

Mae hygyrchedd prosesau caffael fel arfer yn broblem i lawer o fusnesau bach yng Nghymru, ac mae rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol a'r economi sylfaenol yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu. Ar yr un pryd, mae'n rhaid bod busnesau yn teimlo eu bod yn gallu cyflwyno ceisiadau a thrafod materion cytundebol yn eu dewis iaith. Mae potensial yn amlwg i'r proffesiwn chwarae rôl yn hyn o beth; drwy gefnogi staff caffael presennol, gan ganolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg drwy'r rhaglen hyfforddiant a rhoi arweiniad ymarferol i'r aelodau hynny o staff y mae ei angen arnynt, bydd ein gwaith yn helpu i greu llwyfan a all gyfrannu at gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wrth gynnal busnes pob dydd.

Thema 2

Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Bydd effeithiau ar wasanaethau a ddarperir gan bob corff cyhoeddus sy'n dod o fewn cwmpas y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Bydd y broses o bennu amcanion llesiant drwy bartneriaeth gymdeithasol yn cynnwys llais gweithwyr mewn cyfarfodydd

partneriaeth gymdeithasol lle mae angen cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Bydd disgwyl i'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio llais gweithwyr drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gael ei chofnodi yn eu hadroddiadau blynyddol.

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Bydd cyrff cyhoeddus yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r CPG ar weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i bennu amcanion llesiant a sut y gwnaeth llais gweithwyr wahaniaeth i gyflawni'r amcanion hyn drwy'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd aelodau'r CPG yn cynghori Gweinidogion Cymru ar yr adroddiadau hyn a'r gwahaniaeth y mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wedi'i wneud i gyflawni nodau llesiant drwy bennu amcanion a darparu gwasanaethau'n well.

Gwaith Teg

Effaith newid nod 'Cymru lewyrchus' (i roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas') fydd annog cyrff cyhoeddus i feddwl am sut y gall gwaith teg gyfrannu at eu hamcanion llesiant yn gyffredinol ac wrth geisio cyflawni nod llesiant 'Cymru lewyrchus' yn benodol. Gallai camau pellach y gallai cyrff cyhoeddus eu cymryd i annog a hwyluso'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fod yn rhan o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ystyried gwaith teg yn y cyd-destun hwn.

Caffael

Drwy wneud darpariaeth ar gyfer arweiniad i staff presennol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, bydd y Bil yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn sicrhau bod mwy o wasanaethau cyhoeddus ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os derbynnir bod prinder gweithwyr proffesiynol caffael cymwysedig a phrofiadol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol, yna mae'n dilyn y bydd hefyd brinder gweithwyr proffesiynol caffael cymwysedig a phrofiadol i gynnal ymarferion tendro a darparu gwasanaethau masnachol yn ddwyieithog. O ystyried bod Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol gyhoeddi dogfennau tendro'n ddwyieithog, os oes gofyn gwneud hynny oherwydd y pwnc neu'r farchnad debygol, a ii) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus beidio â thrin ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg, mae angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol caffael yn gallu gwneud hynny'n hyderus ac yn effeithlon. Mae yna risg, o ddibynnu ar wasanaeth cyfieithu awdurdod neu gydweithwyr Cymraeg, y gallai gweithwyr proffesiynol caffael nad ydynt yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg fynd yn groes i ddeddfwriaeth ynglŷn â'r Gymraeg a deddfwriaeth caffael. Os nad oes cysondeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn dogfennaeth a chyfarwyddiadau, er enghraifft y rhai a ddarperir drwy systemau tendro electronig, gallai hyn arwain at her. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad yw'r Gymraeg yn cael ei chydabod fel un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, sy'n ei gwneud hi'n fwy cymhleth hysbysebu cyfleoedd i ennill contractau yn unol â chyfundrefn deddfwriaethol caffael y DU, sydd wedi cael ei throsi'n uniongyrchol o gyfarwyddbau caffael yr UE.

Er mwyn cydymffurfio â gofynion y Gymraeg, mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol caffael wneud asesiadau cynnil yn seiliedig ar arbenigedd masnachol a dealltwriaeth o'r

marchnadoedd presennol a marchnadoedd newydd posibl. Yna, mae'n ofynnol iddynt reoli trefniadau hysbysebu ar wahân ar gyfer cyfleoedd i ennill contractau sydd uwchlaw trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd gan y bydd hysbysiaidau yn Gymraeg yn cael eu gwrthod yn awtomatig gan borth hysbysebu'r UE. Er gwaethaf ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n bosibl y bydd angen i awdurdodau yn y dyfodol hysbysebu contractau'n fwy cyffredinol na'r DU oherwydd gofynion deddfwriaethol neu fasnachol, ac felly bydd y mater hwn yn parhau i fod yn un sy'n gosod gofynion ar y proffesiwn.

Thema 3

Mae cynllunio ieithyddol yn rhywbeth y mae disgwyl iddo wella o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, pan fydd cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r ffordd hon o weithio i bennu amcanion llesiant ac ystyried safbwyntiau eu gweithlu. Gall ffrwyth y gwaith hwnnw gael ei gofnodi yn eu hadroddiad blynyddol a'i ystyried gan y CPG.

Caffael

Mae seilwaith gwasanaethau cyhoeddus sy'n gyson, yn gynaliadwy ac sy'n hyrwyddo llesiant lleol yn hollbwysig i'r ffordd rydym yn gweithredu. Drwy uwchsgilio siaradwyr Cymraeg a rhoi arweiniad ar gaffael a darparu dogfennaeth yn ddwyieithog, byddwn yn cyfrannu at y seilwaith caffael cyson a safonol hwnnw sy'n ddigon cadarn ar y cyd i gyflwyno cyfundrefn gaffael gyhoeddus sy'n decach, sy'n fwy cydlynol ac sydd wedi'i threfnu'n well.

Mae hefyd yn hollbwysig bod yr atebion technolegol sydd ar gael i weithwyr proffesiynol caffael yn gallu eu helpu i dendro'n ddwyieithog. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r ffordd y gall y llwyfannau hyn gefnogi'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg fel y byddant yn addas at y diben yn hyn o beth. Er enghraifft, mae swyddogion yn nhîm y Bil eisoes yn gweithio gyda chydweithwyr yn Is-adran y Gymraeg i sicrhau y bydd ein Canllawiau Statudol yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i integreiddio'r pecyn cymorth technoleg dwyieithog â'r ffordd y darperir gwasanaethau, a'r ffordd y caiff tendrau eu llunio. Y bwriad yw y bydd yr arweiniad yn hygyrch, yn hawdd ei ddehongli, yn hwylus i ddefnyddwyr ac yn bwysig ddigon, yn canolbwyntio hefyd ar fewnbwn cymdeithasol-ieithyddol h.y. sut y gall cynhyrchion/gwasanaethau nid yn unig fod ar gael yn Gymraeg, ond hefyd *gynyddu'r* defnydd rhyngpersonol o'r Gymraeg drwy ddod â siaradwyr Cymraeg ynghyd.

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg⁶ (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Er bod y Bil yn ddarn unigol o ddeddfwriaeth, mae'r nod o wella llesiant, yn enwedig llesiant cymdeithasol ac economaidd a llesiant diwylliannol, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni agweddau penodol ar y saith nod llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae adran 3 o'r Ddeddf honno yn darparu bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy, a ddiffiniwyd yn y Ddeddf fel "[y] broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant".

Wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hynny gynnwys pennu a chyhoeddi amcanion (amcanion llesiant) sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried y nod o sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a ddisgrifir fel cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

Yng nghyd-destun y nodau llesiant, mae'n amlwg bod y Gymraeg wedi'i chwmpasu gan ddarpariaethau'r Bil a gall hyn gyfrannu at y nod o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Effeithiau Cadarnhaol

Os yw'n llwyddiannus, bydd siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn gallu byw eu bywydau pob dydd, gan gynnwys eu bywydau gwaith, yn fwy hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg ac efallai y bydd mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir o dan Safonau'r Gymraeg. Gall hyn fod yn arbennig o wir pan fo gwasanaethau lleol yn cael eu darparu gan gontractwyr, yn enwedig os bydd ein cynnig yn llwyddo i gynyddu nifer y cyflenwyr lleol sy'n cyflawni contractau sydd wedi'u teilwra'n well i'w hardal. Yn yr un modd, bydd busnesau yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i ymgeisio am gontractau drwy gyfrwng y gwasanaethau ac yn fwy hyderus i wneud hynny.

⁶ Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

Hefyd, yn ein Cynllun Gweithredu, byddwn yn ystyried sut y gall ein dull gweithredu gefnogi orau y dyheadau yn *Cymraeg 2050* i:

- Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu ac i gefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun
- Gweddnewid y tirwedd digidol Cymraeg, gan roi pwyslais arbennig ar dechnolegau iaith.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiwn yn ein hymgyngghoriad o ran yr effeithiau cadarnhaol y gallai'r Bil (drafft) eu cael ar y Gymraeg.

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr effaith gadarnhaol ddisgwyliedig ar y Gymraeg o ganlyniad i'r Bil, gan gynnwys:

- Mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg.
- Gwasgaru cyfleoedd yn well yn ddaearyddol.
- Cynyddu nifer y cyflenwyr Cymraeg mewn cadwyni cyflenwi.
- Atgyfnerthu egwyddorion Safonau'r Gymraeg i fwy o gyflogwyr.

Nododd nifer o'r ymatebwyr sut y gallai effeithiau cadarnhaol y Bil gael eu hestyn drwy fwy o eglurder ynglŷn â threfniadau o ran y Gymraeg. Hefyd, nodwyd nifer o gyfleoedd gan randdeiliaid:

- Pwyslais ar gymhellion i fodloni gofynion ynglŷn â'r Gymraeg yn hytrach na chosbau.
- Cyfle i ymgysylltu â'r rhai y tu hwnt i gwmpas y Bil hwn.
- Cynnwys siaradwyr Cymraeg yn y CPG
- Adolygu cynigion yn rheolaidd.
- Mwy o gymorth anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg.

Hefyd, nododd ymatebwyr fod angen ymgorffori'r gofynion ynglŷn â'r Gymraeg yn well o fewn y polisi presennol, gan gynnwys y canlynol:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Safonau'r Gymraeg sy'n deillio 'r Mesur.
- Yr Hysbysiadau Cydymffurfiaeth y mae rhwymedigaeth statudol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gydymffurfio â nhw.
- O fewn Safonau'r Gymraeg, safonau 57, 58 a 59.

Effeithiau Negyddol

Un canlyniad posibl yw y gallai cynnydd yn y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg greu momentwm a fyddai'n codi'r galw i lefelau sy'n uwch na'r hyn y gall awdurdodau ymdopi â nhw mewn gwirionedd. Mae'r risg hon yn annhebygol o ddod yn realiti, ond gallai arwain at fwy o alw na'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac arafu prosesau caffael ac adnoddau yn y maes hwnnw wrth i'r proffesiwn ddal i fyny.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiwn yn ein hymgyngghoriad o ran yr effeithiau negyddol y byddai'r Bil (drafft) yn eu cael ar y Gymraeg.

Tynnodd lleiafrif o'r ymatebwyr sylw at rai effeithiau negyddol, gan gynnwys:

- Effaith negyddol bosibl ar gystadleurwydd BBaChau oherwydd llai o allu i fodloni gofynion ynglŷn â'r Gymraeg.
- Effaith negyddol bosibl ar fusnesau yng Nghymru sy'n dibynnu ar gyflenwyr yn Lloegr.
- Busnesau yn Lloegr yn cael eu trin yn llai ffafriol na busnesau yng Nghymru.
- Gall y posibilrwydd o lunio dau ddarn o ddeddfwriaeth i fodloni gofyniad dwyieithog achosi dryswch i fusnesau. Mwy o eglurder ynglŷn â gofynion o ran y Gymraeg.

2. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Mae'n anodd rhagweld sut y bydd y Bil yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg na dysgwyr Cymraeg, am fod prosesau caffael, er eu bod yn rhai cyhoeddus, yn ymwneud â busnesau yn bennaf. Un canlyniad posibl yw ei fod yn annog dysgwyr Cymraeg sy'n gwneud cais am gontractau i wneud hynny'n ddwyieithog, ond canlyniad gweddilliol fyddai hynny, er mor gadarnhaol. Wrth gwrs, mae contractau ar gyfer gwasanaethau addysg Gymraeg a gwasanaethau cymorth eisoes yn cael eu tendro'n ddwyieithog gan yr awdurdodau perthnasol.

3. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau⁷ sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

Fel y nodir uchod, bydd gwasanaethau a ddarperir yn lleol yn cael mwy o gymorth o ganlyniad i uwchsgilio staff caffael a chomisiynu, byddant yn cael eu teilwra'n well at ardaloedd lleol ac mae'n fwy tebygol y cânt eu darparu gan fusnesau lleol. Bydd hyn oll yn annog defnyddwyr terfynol i gael y gwasanaethau hynny yn eu dewis iaith ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn gallu gwneud hynny.

⁷ Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

4. Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

- Fel rhan o'r Canllawiau Statudol, bwriadwn annog awdurdodau i sicrhau bod contractau'n cynnwys y gofyniad i roi cyhoeddusrwydd am argaeledd y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg lle y bo modd. Gellir rhoi ffocws penodol ar ardaloedd daearyddol lle mae lefelau hyder y cyhoedd i siarad Cymraeg, neu lle maent yn teimlo y gellid rhoi mwy o gymorth i wasanaethau Cymraeg, yn awgrymu'r potensial ar gyfer ymyriadau. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cydgysylltu â chydweithwyr Llywodraeth Cymru yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac is-adran y Gymraeg i ddeall yn well y meysydd lle mae'r potensial mwyaf i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy wasanaethau cyhoeddus.

Gallwn hefyd ddefnyddio tystiolaeth i ganfod ble y bu'r bylchau o ran argaeledd dogfennau tendro yn Gymraeg yn hanesyddol, a gellir gwneud dadansoddiad drwy ddefnyddio'r feddalwedd dendro bresennol a gwefannau cyfrannau contractau sydd wedi cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ac ymarferion tendro sydd wedi cael eu cynnal yn ddwyieithog. Byddai'r gwaith samplu hwn yn dadansoddi'r bylchau a allai lywio'r dull gweithredu uchod a hefyd helpu i ganolbwyntio ar ddatblygu ein cynllun hyfforddiant a recriwtio iddo.

Byddwn hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan y gyfundrefn adrodd blynyddol a gyflwynir gan y Bil lle y bo modd i ddeall yn well sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn gweithgarwch masnachol, ac i ba raddau y mae gwaith cynllunio'r Gymraeg yn cael ei wneud.

5. Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

- Dwy ffynhonnell benodol ar gyfer asesu'r galw am dendro a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg yw'r awdurdodau cyhoeddus eu hunain a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Byddwn yn gweithio gyda'r BGCau gan eu bod yn casglu tystiolaeth i ddeall sut maent yn cyflawni eu hamcanion llesiant eu hunain, ac yn defnyddio'r data hyn i lywio'r broses o ddatblygu ein Canllawiau Statudol yn barhaus.
- Hefyd, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnal Gwasanaeth Adborth i Gyflenwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle i fusnesau holi ynglŷn â phrosesau caffael cyhoeddus. Mae'r gwasanaeth eisoes yn cael ei hyrwyddo gan rai awdurdodau yn ystod y broses dendro, a byddwn yn annog pob awdurdod i wneud hynny fel rhan o'n Cynllun Gweithredu.

6. Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Byddwn yn cysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac Is-adran y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru er mwyn deall canlyniadau a goblygiadau'r Arolwg Cenedlaethol mwyaf diweddar, a chaif adroddiad ei lunio'n flynyddol a fydd yn manylu ar effaith caffael ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar lefel busnesau, ar lefel bersonol ar ar lefel gymunedol. Caiff dirnadaethau yn deillio o'r broses hon eu defnyddio i lywio'r broses barhaus o ddatblygu ein Canllawiau Statudol.

D. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe amcan i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, y dylid eu defnyddio i asesu'r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gallant hefyd helpu i ddatblygu a llywio camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd A6. Maent wedi'u symleiddio i fod yn set o gwestiynau i'ch arwain drwy'r asesiad effaith.

Dylid ystyried y cwestiynau hyn p'un a oes elfen rheoli tir yn eich cynnig ai peidio, er y bydd rhai yn berthnasol iawn os yw eich maes polisi yn ymwneud â rheoli tir mewn unrhyw ffordd.

Dylech fynd ati'n rhagweithiol i ystyried yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth – dyma un maes lle caiff canlyniadau anfwriadol yn aml eu hesgeuluso, un ai drwy ddiffyg ymwybyddiaeth, neu gan ei bod yn anodd rhoi gwerth ariannol ar fioamrywiaeth.

Ar ben hynny, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol inni fynd ati'n gadarnhaol i geisio cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn uniongyrchol (lle bo'r ymyrraeth yn cynnwys rheoli tir neu waith adeiladu) ac yn anuniongyrchol (er enghraifft, lle gallai fod cyfle i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth). Wrth gwblhau'r asesiad hwn, ystyriwch sut y gallai gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau gyfrannu at nodau eich polisi neu brosiect.

Bydd angen i chi gofnodi'r penderfyniadau a'r effeithiau sy'n codi o'r asesiad hwn. Nodwch sut rydych wedi ateb pob cwestiwn, neu gallwch ddefnyddio'r templed ar ddiwedd yr asesiad. Mae canllawiau pellach ar gael ar y fewnwyd.

Ystyriwch Gwestiynau 1 – 9 ar gyfer POB polisi:

Ymwreiddio bioamrywiaeth

1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?

- ♦ A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio prosiect?
 - Beth fydd effaith caffael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?
 - A yw'r cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy?
 - A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy'n niweidio'r fioamrywiaeth?
- ♦ A oes angen i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd i weithredu'n gadarnhaol dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio prosiect?
 - A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau cyllid a manylebau prosiect?
 - A yw eich gwerthusiad o'r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella?

Bydd y Bil yn darparu ar gyfer cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol men contractau adeiladu sydd â gwerth amcangyfrifedig o fwy na £2m (gan gynnwys TAW). Mae'r cymalau hyn wedi'u grwpiau'n gategoriau lle y ceisir gwelliant. Mae categori'r "amgylchedd" yn disgrifio gwelliannau sy'n "ei gwneud yn ofynnol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth." Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau contract enghreifftiol a fydd yn ymdrin â'r meysydd hyn.

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n ymgymryd â phrosiectau sydd uwchlaw'r trothwy hwn hysbysu Gweinidogion Cymru os na fwriadant gynnwys y cymalau hyn. Caiff y rhesymeg a roddir ei hasesu ac efallai y bydd Gweinidogion yn cymryd camau pellach. Bydd gofynion adrodd blyneddol o dan y dyletswyddau caffael yn y Bil yn caniatáu i ddata gael eu casglu oddi wrth y sector cyhoeddus yng Nghymru a'u dadansoddi, er mwyn monitro canlyniadau mewn perthynas â disgwyliadau polisi. Os caiff gwendidau penodol eu nodi, mae'r Bil yn rhoi pwerau ymchwilio i Weinidogion, sy'n caniatáu iddynt ofyn am ragor o wybodaeth, a chymryd camau gweithredu.

Bydd adroddiadau blynyddol yn rhoi cyfle inni ddeall yn well beth sy'n digwydd yn y maes polisi hwn ac i wella a gweithio gyda chydweithwyr polisi a gwneud ymyriadau yn ôl yr angen.

2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?

- ♦ A yw wedi ystyried costau gydol oes sy'n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn y dadansoddiad cost a budd, hyd yn oed os yw'n broses anffurfiol?
 - A ydych wedi ystyried sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgarwch Llywodraeth Cymru, er enghraifft i gefnogi gweithgareddau hamdden egniïol, addysg, atal llifogydd a thyfu bwyd yn lleol? (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, yn lleihau'r defnydd o ynni ac yn gwella systemau draenio.)
- ♦ A yw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a'r posibilrwydd o arbed ar gyfer iechyd a llesiant, perygl llifogydd ac ati?
- ♦ A yw'n gallu annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a'r arbedion hyn?

Mae'r Bil yn diffinio caffael yn gyffredinol, gan gynnwys y broses o lunio a chynllunio gofynion. Bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus bennu eu hamcanion eu hunain, yn unol â'r nodau llesiant, gan gynnwys Cymru wyrddach. Mewn ymarferion caffael ar gyfer contractau adeiladu mawr, caiff hyn ei gryfhau drwy ddyletswyddau pellach mewn perthynas â rheoli contractau. Mae'r dyletswyddau hyn yn golygu y bydd mwy o sylw yn cael ei roi i fioamrywiaeth mewn penderfyniadau busnes.

3. Sut y mae eich cynnig yn gwella'r ddealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth gan annog eraill i weithredu?

- ♦ Allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?
- ♦ Allwch chi hyrwyddo'r manteision o sicrhau mynediad at fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?
- ♦ Allwch chi ddarparu neu drefnu hyfforddiant arbenigol lle bo angen?
- ♦ Allwch chi gysylltu â strategaethau cyfathrebu a mentrau bioamrywiaeth eraill, er enghraifft cynlluniau gwobrwyo a digwyddiadau lleol?

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau statudol ar arferion gorau a fydd yn cynnwys bioamrywiaeth.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n camau monitro

4. A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

- ♦ **Rhaid** i chi ystyried
 - y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)
 - yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
 - unrhyw ddatganiad perthnasol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- ♦ Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at y cofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy
 - Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
 - Atlas Cymru Fyw

Er mai dyletswydd caffael gyffredinol, eang yw hon, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr polisi er mwyn sicrhau bod canllawiau statudol yn adlewyrchu gofynion statudol ac arferion gorau ym maes caffael.

5. A ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

- ♦ A ydych chi'n gwybod beth sy'n sbarduno newid a beth yw'r ffactorau negyddol allweddol a allai godi o'ch cynnig?
 - ♦ A ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn gymwys neu eu bod wedi'u hosgoi?
- Dd/G

6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

- ♦ A yw'n gallu cefnogi mentrau gwyddoniaeth i ddinasyddion a chynlluniau monitro?
- ♦ A ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata am fioamrywiaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd?

Na

Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth

7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

- ♦ A all staff fod yn rhan o weithredu ymarferol?
- ♦ A allwch chi ariannu unrhyw weithredu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?
- ♦ A allwch chi gefnogi partneriaethau a/neu gydweithio er mwyn mynd ati i weithredu ar fioamrywiaeth yn lleol ac yn gymunedol?

Mae potensial i annog camau gweithredu cadarnhaol drwy hyrwyddo budd i'r gymuned drwy gontractau mwy o faint, yn enwedig ym maes adeiladu, lle y gofynnir i ymgeiswyr ystyried ffyrdd o wella bioamrywiaeth drwy'r contract, gyda'r cynigion yn dod yn rhan o'r contract hwnnw.

8. A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?

- ♦ A allwch chi gefnogi camau i gaffael sgiliau a hyfforddiant?
- ♦ A yw eich cynnig yn sicrhau bod gan y rheini sy'n rhan o broses o wneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth y cymwysterau priodol?
- ♦ A all eich cynnig ariannu'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gweithredu ar fioamrywiaeth?

Na all

9. A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i'w cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

- ♦ Mae'n rhaid i adroddiad ar yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2019 ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn.

Nid oes unrhyw effeithiau wedi cael eu nodi ac felly nid oes dim un wedi cael ei chofnodi.

Os yw eich cais yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu'r môr, dylech hefyd ystyried Cwestiynau 10 – 16:

Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn

10. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?

- ♦ A ystyriwyd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a/neu gamau gorfodi ac a weithredwyd arnynt?
- ♦ A nodwyd unrhyw ofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac a weithredwyd ar hynny?
- ♦ A nodwyd unrhyw effeithiau neu gyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn Adran 7, ac a weithredwyd ar hynny?

11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y lle cyntaf?

- ♦ A ydych chi wedi dewis yr opsiwn sy'n osgoi colled a/neu ddifrod i fioamrywiaeth, ac sy'n hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau?
- ♦ Mewn achosion lle bo cydbwysedd y manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol⁸ sy'n cael ei ddarparu gan eich cynnig i'r graddau y gellid colli rhywfaint o gynefinoedd neu rywogaethau yn unig, a ydych chi wedi ceisio gwella bioamrywiaeth mewn mannau eraill ar y safle, neu os nad oes opsiwn i wneud hynny, yn rhywle oddi ar y safle?
- ♦ a yw eich cynnig yn cyfrannu at y gwaith o gynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru?

Gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol

12. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau?

- ♦ A yw'n gweithio gyda natur, ac yn ystyried y defnydd o atebion seiliedig ar natur yn bennaf?

⁸Gan ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth ac ecosystemau

- ♦ A oes unrhyw atebion seiliedig ar natur yn gynhenid ac yn fioamrywiol?
- ♦ A yw'n gallu adfer neu gyfrannu at y gwaith o adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio?
- ♦ A yw'n gallu cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau o gynefinoedd ecolegol cadarn?
- ♦ A yw'r cynnig yn gwella rheolaeth y safle i wella cyflwr y cynefin neu'r rhywogaethau ar **unrhyw** raddfa? ee plannu rhywogaethau cynhenid, darparu mannau o flodau gwyllt ar gyfer peillwyr, gadael rhannau o'r glaswellt heb ei dorri a gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd gwerthfawr?

13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?

- ♦ A yw eich cynnig yn cefnogi'r gwaith o greu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, perthi cynhenid, dolydd o flodau gwyllt neu fannau gwyrdd eraill sy'n gynhenid ac yn fioamrywiol?
- ♦ A all greu cynefin gyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn?

Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

14. A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol i gynefinoedd neu rywogaethau drwy

- ♦ newid defnydd y tir?
- ♦ achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn neu ddirgryndod?

15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys:

- ♦ Rheoli llygredd
- ♦ Rhywogaethau estron goresgynnol
- ♦ Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy
- ♦ Newid yn yr Hinsawdd ac ati.

16. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?

- ♦ A ddefnyddiwyd dulliau system gyfan a datrysiadau cynhenid a bioamrywiol seiliedig ar natur i leihau llygredd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd?
- ♦ A yw eich cynnig yn defnyddio'r arferion gorau ar gyfer rheoli'r meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth ac adeiladu yn gynaliadwy?
- ♦ A yw eich cynnig yn cynnwys camau i gefnogi peillwyr?

Rhif y cwestiwn	Cyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol	Effeithiau negyddol y cynnig	Y camau sydd eu hangen i greu cymaint o gyfleoedd cadarnhaol â phosibl a rhwystro effeithiau negyddol

E. ASESIAD DYLETSSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Nod cyffredinol y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dibynnu ar waith partneriaeth da ac yn cysylltu â chynlluniau i gryfhau ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwyntiau gwahanol ac yn cefnogi'r ddyletswydd drwy sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol penodol yn gwneud hynny drwy gydweithredu â phartneriaid cymdeithasol.

Un o elfennau'r Bil yw sicrhau gwelliannau economaidd a gwelliannau i lesiant cymdeithasol a fydd yn cael eu cyflawni'n rhannol drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd. Bydd hyn yn ategu'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac yn annog cyrff cyhoeddus i ystyried pob penderfyniad yn y dyfodol mewn partneriaeth gymdeithasol. Bydd y ddyletswyddau caffael yn helpu i hyrwyddo canlyniadau iechyd a llesiant gwell i weithwyr dan gontract. Ar lefel gymdeithasol, mae gwaith teg yn helpu i hyrwyddo cydlyniant, cyfranogiad a chyfiawnder cymdeithasol ac economaidd. Am y rhesymau hyn, mae hyrwyddo gwaith teg yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae partneriaethau cymdeithasol fel arfer yn ymwneud â pholisïau economaidd a chymdeithasol (Andersen a Mailand, 2002) a gallant weithredu fel adnodd hollbwysig i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol (Crane a Seitanidi, 2013). Gall cytundebau amlochrog fynd mor bell â datrys problemau cymdeithasol ar bob lefel mewn cymdeithas, gan gynnwys diweithdra, hyfforddiant, addysg, iechyd a hawliau dynol (Andersen a Mailand, 2002). Gan fod y mathau hyn o broblemau cymdeithasol yn tueddu i fod yn gymhleth iawn, mae angen partneriaid lluosog o nifer o sectorau i fynd i'r afael â nhw (Contu a Girei, 2014).

A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?

Mae asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau.

Bydd gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gydag undebau llafur, cyflogeion a chyflogwyr yn cael effeithiau cadarnhaol am fod undebau wedi'u strwythuro mewn ffordd sy'n casglu profiadau, pryderon a safbwyntiau'r rhai â nodweddion gwarchodedig a bod strwythurau mewnol llawer o undebau hefyd yn seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol.

Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni

Andersen, S.K. a Mailand, M. (2002) The Role of Employers and Trade Unions in Multipartite Social Partnerships, Copenhagen: Canolfan Copenhagen

Sut y gallai'r cynnig waethygu anghydraddoldeb canlyniad ymhellach o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y Bil yn gwaethygu anghydraddoldeb canlyniad ymhellach.

Fodd bynnag, yn ymarferol, mae gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am fwy o ymdrech na ffyrdd traddodiadol o weithio am fod angen newid diwylliant i sicrhau ymddiriedaeth, bod yn agored ac ymrwymiad (Marshall, 2008). Mae rhan o'r newid hwn hefyd yn golygu bod y sector cyhoeddus yn dod yn sefydliad sy'n hyrwyddo newid a chynnydd cymdeithasol (Marshall, 2008:tt). Mae manteision y ffordd hon o weithio yn tueddu i ddod i'r amlwg yn y tymor hwy hefyd, sy'n gwneud yr anawsterau byrdymor sy'n gysylltiedig ag ymaddasu i weithio mewn partneriaeth hyd yn oed yn fwy heriol (Marshall, 2008),

Noda Sussha et al (2019), er bod mwy o weithio mewn partneriaethau cymdeithasol bellach, fod prinder ymchwil systematig academiaidd i'r maes o hyd. Maent yn dadlau bod hyn yn ei gwneud yn anodd ystyried i ba raddau y gellir defnyddio partneriaethau (sonnir yn benodol am bartneriaethau data) er budd cymdeithasol ai peidio (Sussha et al, 2019).

Rhowch fanylion ynglŷn ag anghydraddoldebau canlyniad sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio

Drwy gymhwyso darpariaethau'r Bil, bydd hynny, ymarferol, yn gwella canlyniadau pobl y mae anfanteision economaidd-gymdeithasol yn debygol o effeithio arnynt. Mae pobl ag anableddau eisoes yn llai tebygol o ennill Cyflog Byw na phobl nad ydynt yn anabl (Coleman, Sykes a Groom, 2013). Maent hefyd yn fwy tebygol o roi gwybod eu bod yn cael eu trin yn annheg yn y gweithle oherwydd eu hanabledd – mae'r mathau hyn o driniaeth yn cynnwys y math o waith, cael eu hanwybyddu, oriau gwaith, asesu perfformiad/arfarnu a llwyth gwaith (Coleman, Sykes a Groom, 2013). Bydd y Bil yn rhoi ffocws newydd ar waith teg yng Nghymru a rhoi hwb newydd i weithredu i'w sicrhau, wedi'i lywio gan waith y CPG ynghyd â gobaith i wella canlyniadau holl ddinasyddion Cymru.

Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni

Marshall, H. (2008) Trade Unionism and Social Partnership: Why does Wales provide a way forward? Sefydliad Bevan.

Susha, I., Gronlund, A. a Van Tulder, R. (2019) 'Data driven social partnerships: Exploring an emergent trend in search of research challenges and questions', *Government Information Quarterly*, 36 (1): 112-128

Coleman, N., Sykes, W. a Groom, C. (2013) Barriers to employment and unfair treatment at work: a quantitative analysis of disabled people's experiences, Manceinion: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Sut y gallai'r penderfyniad o bosibl wella canlyniadau i'r rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd allweddol o sicrhau gwell llesiant a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo gwaith teg yn ogystal â sicrhau caffael cymdeithasol gyfrifol. Er mwyn cyflawni'r ddwy elfen olaf, bydd angen cydweithredu rhwng rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â chan y llywodraeth ac undebau llafur. Mae hyn yn sicrhau y caiff lleisiau gweithwyr eu clywed, ac yn arwain at wella gwasanaethau cyhoeddus ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd.

Effaith diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw y bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddeddf ystyried gwaith teg wrth bennu eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf 2015 (y bydd dyletswydd arnynt wedyn i gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni (gweler adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015). Bydd yn defnyddio'r broses ddedfwriaethol sefydledig o bennu a chyhoeddi amcanion fel system lle y gall cyrff cyhoeddus wneud cynnydd o ran gwaith teg.

Bydd y darpariaethau caffael cyhoeddus yn y Bil yn helpu i sicrhau y daw caffael cyhoeddus yn ffordd lawer mwy effeithiol o sicrhau gwerth cymdeithasol a chefnogi canlyniadau polisi strategol allweddol. Bydd y dyletswyddau caffael a rheoli contractau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyfrif am y canlyniadau llesiant a gyflawnir drwy eu gweithgarwch caffael, a thrwy fwy o ddiwydrwydd dyladwy mewn cadwyni caffael.

Sut fyddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn?(Ystyriwch ganlyniadau ehangach)

Comisiynwyd y Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) gan Gyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg (Swyddfa'r Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru) i ddatblygu damcaniaeth newid a gwneud argymhellion ar gyfer llunio fframwaith gwerthuso er mwyn gallu mesur effaith pasio'r Bil a'i roi ar waith.

Er mwyn sicrhau y gellir mesur amcanion y Bil, a phennu sut beth yw 'llwyddiant' ar ôl ei roi ar waith, gellir defnyddio damcaniaeth newid i gael consensws rhwng rhanddeiliaid ynglŷn â'r canlyniadau allweddol a rhoi fframwaith monitro a gwerthuso.

Nod y darn hwn o waith oedd gweithio gyda swyddogion polisi a rhanddeiliaid allanol i lunio damcaniaeth newid sy'n mapio'n gywir fewnbynnau, gweithgareddau a chanlyniadau allweddol ymyriadau allweddol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Bydd hyn yn cynnig model rhesymegol a all fod yn gyferbynt at ddibenion gwerthuso yn y dyfodol. Roedd yr amcanion fel a ganlyn:

- Ymgynghori â chydweithwyr polisi sy'n gyfrifol am baratoi'r Bil drafft a rhanddeiliaid allanol er mwyn llunio newid damcaniaeth; paratoi modelau rhesymeg ar gyfer tri phrif faes y Bil;
- Tynnu ynghyd y dystiolaeth bresennol ynglŷn â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol er mwyn deall y data sydd ar gael ar hyn o bryd ac unrhyw fylchau er mwyn llywio'r Memorandwm Esboniadol;
- Cefnogi cydweithwyr polisi yn y gwaith o weinyddu arolwg byr o gyrrff cyhoeddus a sefydliadau addysgol ynglŷn â'u trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol a'u hymwybyddiaeth o'r broses o ddatblygu'r Bil drafft. Bydd hyn yn cefnogi tystiolaeth llinell sylfaen i lywio'r ddamcaniaeth newid a gwerthusiad canlyniadol.
- Ymgysylltu â'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a chynghorwyr arbennig i ganfod eu dealltwriaeth o ganlyniadau ac effeithiau'r Bil a chreu

consensws rhwng Gweinidogion a swyddogion.

Roedd allbynnau'r gwaith fel a ganlyn:

- Tri model rhesymeg ar gyfer pob elfen o'r Bil: gwaith teg; partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol, pob un yn nodi'n glir y cysylltiadau â'r modelau rhesymeg eraill a sut maent yn rhyngysylltu i gyflawni canlyniadau datganedig y Bil;
- Data'r arolwg llinell sylfaen o drefniadau partneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus a sefydliadau addysgol, y gellir eu defnyddio fel man cychwyn i olrhain newidiadau dros amser ar ôl i'r Bil gael ei roi ar waith, fel rhan o unrhyw raglen werthuso yn y dyfodol;
- Argymhellion ynglŷn â fframwaith gwerthuso i'r Bil, wedi'u llywio gan y gweithdai gyda rhanddeiliaid allanol a dadansoddiad o'r gofynion data a'r data sydd ar gael.

Roedd angen cymorth gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar Gyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg i gasglu data gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau addysgol ynglŷn â'u trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol. Roedd amcanion yr arolwg fel a ganlyn;

1. Datblygu darlun clir o'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol mewn nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus;
2. Canfod y bylchau mewn dealltwriaeth o drefniadau partneriaeth gymdeithasol a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith;
3. Cymharu data ag arolwg blaenorol a gyhoeddwyd yn 2019 ac annog sefydliadau i fynd ati i gymryd camau sy'n gyson â phartneriaid cymdeithasol;
4. Darparu data llinell sylfaen i lywio'r gwaith o lunio damcaniaeth newid a fframwaith ar gyfer gwerthuso effaith y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn y dyfodol.

Mae ffynonellau data a nodwyd o'r gwaith i lunio fframwaith damcaniaeth newid yn cynnwys yr Arolwg o'r Llafurlu, arolygon SYG o'r farchnad lafur sy'n cwmpasu cyfnod pandemig COVID-19 a gwaith mynegai'r CPP.

Nodwyd nifer o ffynonellau a allai gynnig metrigau i ddangos tystiolaeth o gynnydd ym maes caffael cymdeithasol gyfrifol. Roedd y ffynonellau data presennol yn cynnwys;

- Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau, a ddatblygwyd gan y Porth Gwerth Cymdeithasol ac sy'n cael ei ddefnyddio gan rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru;

mae'n rhoi canllawiau ar fabwysiadu dull cyson o fesur gwerth cymdeithasol contractau caffael a'r metrigau a ddefnyddir i gyflawni hyn;

- Data a ddelir eisoes gan Lywodraeth Cymru; gan gynnwys dadansoddeg o wariant ar gyfer contractau caffael yn y sector cyhoeddus;
- Llwyfannau hysbysebu ymarferion caffael, megis gwerthwchigymru, Caffael i Dalu Cymru Gyfan (y GIG) a chynlluniau cyfatebol eraill ar gyfer sectorau gwahanol, sy'n rhoi gwybodaeth am natur a gwerth contractau ac sy'n gallu rhoi amcan o faint sy'n cael ei wario mewn sectorau, ac ar ba gyflenwyr.
- Data perfformiad a gwella awdurdodau lleol;
- Llwyfan Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi; adnodd ffynhonnell agored i gwmnïau rannu eu statws o ran Tryloywder yn y Gadwyn Gyflenwi (TISC) ac i eraill ei weld. Mae adroddiad TISC yn rhoi llwyfan i gwmnïau ddangos eu bod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.
- Data cenedlaethol, gan gynnwys data gan SYG; nodwyd y byddai hyn yn ddefnyddiol o bosibl i fonitro cynnydd ym maes caffael yn y sector gofal cymdeithasol a chymharu cynnydd Cymru â gweddill y DU ar fesurau a nodwyd. Fodd bynnag, byddai angen deall a allai'r metrigau hyn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch sy'n dod o dan y Bil, ac a oes modd dadgyfuno data Cymru oddi wrth ddata gwledydd eraill y DU.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud ychydig o waith i fynd i'r afael â bylchau mewn data oherwydd cyfraddau tlodi; mae data ar ddyled yng Nghymru yn cael eu cyfartaleddu dros dair blynedd oherwydd maint bach y samplau, sy'n golygu na fydd data amserol bob amser ar gael yn hawdd o reidrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai o'r dangosyddion y disgwylir i'r Bil eu cyflawni yn anodd i'w mesur (er enghraifft, newid diwylliannol a chanlyniadau meddalach eraill).

A oes angen casglu gwybodaeth fonitro newydd? Os felly, beth?

Nododd rhanddeiliaid hefyd y byddai'n herio mesur canlyniadau meddalach y Bil, yn enwedig o ran newid ymddygiadol a diwylliannol sy'n ymwneud â phartneriaeth

gymdeithasol. Mae hwn yn fater y mae'r dull gwerthuso arfaethedig yn ymdrin ag ef, yn yr ystyr yr awgrymir y dylid defnyddio dulliau pwrpasol, yn ogystal â dulliau adrodd arferol, er mwyn mesur y canlyniadau hyn.

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Damcaniaeth Newid.